

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol

## Adroddiad Ymchwil Ymgysylltu â Ffermwyr

2025

# Cynnwys


01 **Crynodeb Gweithredol** — Tudalen 4
- Nodau'r ymchwil
- Canfyddiadau allweddol
- Pwyntiau allweddol i'w hystyried ar gyfer y DPPA

02 **Cyflwyniad** — Tudalen 9
- Cyd-destun polisi
- Ymchwil blaenorol
- Ymchwil cyfredol
- Nodau'r ymchwil

03 **Methodoleg yr Ymchwil** — Tudalen 11
- Dylunio astudiaeth a dewis dulliau
- Samplu
- Datblygu offerynnau ymchwil
- Cynnwys a chyflwyniad y gweithdai
- Dadansoddiad
- Gweithdy dilynol

04 **Canfyddiadau** — Tudalen 16
- Sut mae ffermwyr yn deall ac yn gwerthfawrogi eu priddoedd?
- Sut mae ffermwyr yn arfer "rheoli pridd yn dda" a beth yw'r buddion?
- Beth yw'r heriau allweddol sy'n gysylltiedig â phridd, a sut mae goresgyn y rhain?
- Sut mae ffermwyr yn cael gwybodaeth a chyngor ar reoli pridd a sut y gellir gwella hyn?
- Adborth uniongyrchol ar y Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol

05 **Casgliad** — Tudalen 32


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG48349 ISBN digidol 978-1-83715-602-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

**Atodiadau** Tudalen 34

**Atodiad 1: Datganiad Polisi Pridd Drafft** Tudalen 34

**Atodiad 2: Y Gweithdy Peilot** Tudalen 38
- Canllaw i'r Gweithdy Peilot
- Canfyddiadau'r Gweithdy Peilot

**Atodiad 3: Canllawiau i'r Gweithdai** Tudalen 43
- Canllaw i'r Gweithdai – Llawn
- Canllaw i'r Gweithdai – Crynodeb

**Atodiad 4: Trosolwg o'r Cyfranogwyr** Tudalen 49

**Atodiad 5: Dogfennau a anfonwyd at y ffermwyr ar ôl y gweithdy dilynol** Tudalen 53

01

# Crynodeb Gweithredol



Mae ymadael â'r UE wedi creu cyfle i ddatblygu polisi amaethyddol wedi'i deilwra i Gymru, a all fynd i'r afael â'r Argyfyngau Hinsawdd a Natur. Yn y cyd-destun hwn, mae Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol (DPPA) Llywodraeth Cymru yn cael ei greu i nodi gweledigaeth gyffredinol ar gyfer gwarchod a rheoli priddoedd amaethyddol yn gynaliadwy yng Nghymru a llywio polisi yn y dyfodol sy'n effeithio arnynt.

Mae datblygiad y DPPA wedi cynnwys adolygiad tystiolaeth[1] a nododd flaenoriaethau allweddol penodol i Gymru y mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn sicrhau bod priddoedd amaethyddol yn cael eu defnyddio a'u rheoli'n gynaliadwy. Roedd hyn yn sail i ddrafft cychwynnol y DPPA (gweler Atodiad 1). Roedd cam nesaf y datblygiad yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gasglu rhagor o dystiolaeth ac adborth ar y drafft, i fireinio'r datganiad a sicrhau ei fod yn addas i'r diben ac yn rhannu gweledigaeth ar gyfer polisi pridd yng Nghymru.

Mae'r adroddiad yn crynhoi'r mewnwelediad, yr adborth a'r ystyriaethau a amlygwyd mewn cyfres o weithdai ymgysylltu â ffermwyr Cymru.

**Nodau'r ymchwil**

Amcanion yr ymchwil oedd:

— Archwilio profiadau ffermwyr ac arferion presennol rheoli pridd ac unrhyw heriau cysylltiedig y maent yn eu hwynebu.

— Casglu adborth ar ddrafft cyfredol y Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol (DPPA) a nodi cyfleoedd i'w ddatblygu ymhellach.

1 Adolygiad o Dystiolaeth Pridd Cymru: Adolygiad o dystiolaeth pridd Cymru | LLYW.CYMRU

## Canfyddiadau allweddol

Mae canfyddiadau'r ymchwil hwn yn cefnogi dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o brofiadau ac arferion cyfredol ffermwyr a rheolwyr tir o ran rheoli priddoedd amaethyddol yng Nghymru. Mae'r mewnwelediadau hyn yn cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol (DPPA) ac wedi cyfrannu'n uniongyrchol at lunio'r datganiad terfynol, fel y disgrifir yn nogfen Canfyddiadau ac Ymateb Ymgysylltu â Rhanddeiliaid y DPPA[2].

### Sut mae ffermwyr yn deall ac yn gwerthfawrogi eu priddoedd?

Cynhaliodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr y gweithdy ryw fath o brofion neu ddadansoddiad pridd rheolaidd i fonitro cyflwr pridd. Amlygodd y cyfranogwyr fod rhai priodweddau pridd (e.e. carbon pridd, bioamrywiaeth pridd) yn llawer anoddach, costus neu annibynadwy i'w hasesu, gan arwain at fylchau yn nealltwriaeth y ffermwyr o'u priddoedd.

Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn credu bod eu priddoedd mewn cyflwr da neu iach ar y cyfan. Serch hynny, roedd y rhan fwyaf o'r ffermwyr a holwyd wedi dod ar draws rhywfaint o ddiraddiad pridd ar eu ffermydd ar ryw adeg. Awgrymodd rhai cyfranogwyr fod rhywfaint o ddiraddiad yn ganlyniad anffodus ond anochel i rai arferion ffermio neu amodau tywydd (e.e. glaw trwm). Yr arferion a grybwyllwyd yn aml ymhlith y rhai sy'n cynnwys rhywfaint o ddiraddiad pridd oedd gaeafu da byw yn yr awyr agored, tyfu cnydau gwraidd neu indrawn, ac amaethu ar gyfer ailhadu, sef arferion yr oedd ffermwyr yn eu mabwysiadu neu'n parhau i'w defnyddio oherwydd pwysau ar fusnes y fferm. Yn y sefyllfaoedd hyn, roedd llawer o ffermwyr yn defnyddio strategaethau i leihau effeithiau negyddol arferion o'r fath ar briddoedd lle bo hynny'n bosibl.

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn cydnabod pwysigrwydd priddoedd i ecosystemau, i'w ffermydd ac i Gymru. Roedd mwyafrif y ffermwyr yn cydnabod, er bod priddoedd Cymru mewn cyflwr da, fod angen eu gwarchod, eu cynnal a chymhwyso gwelliannau wedi'u targedu iddynt er mwyn sicrhau cynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol.

### Sut mae ffermwyr yn "rheoli pridd yn dda" a beth yw'r buddion?

Dywedodd ffermwyr eu bod yn arfer 'rheoli pridd yn dda' yn bennaf drwy'r arferion canlynol:

- Rheoli maetholion – yn enwedig drwy leihau mewnbwn oddi ar y fferm, defnyddio gwrtaith a slyri'n effeithiol, a chymhwyso maetholion wedi'u targedu.
- Rheoli da byw – drwy dechnegau megis pori cylchdro a phori trwm.
- Gwella strwythur pridd – drwy arferion megis awyru priddoedd gan ddefnyddio dulliau mecanyddol a botanegol.
- Profi ac arsylwi – er mwyn deall cyflwr cyffredinol priddoedd a'r gwahaniaethau mewn priodweddau pridd ar draws gwahanol rannau o fferm.
- Rheoli aflonyddu pridd – naill ai drwy leihau neu hyd yn oed ddileu arferion troi'r tir neu reoli amseriadau trin tir yn ofalus er mwyn lleihau'r effeithiau ar briddoedd.

Roedd pawb a gymerodd ran yn y gweithdai yn cydnabod bod cynnal priddoedd iach yn fuddiol ac yn hanfodol i weithrediad llwyddiannus y system ffermio. Ceir crynodeb o'r buddion 'rheoli pridd yn dda' a fynegwyd gan y ffermwyr isod. Soniodd rhai cyfranogwyr hefyd am y budd cymdeithasol o adael etifeddiaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

2 Dogfen Canfyddiadau ac Ymateb Ymgysylltu â Rhanddeiliaid y DPPA: y ddwy ddogfen ar gael drwy www.llyw.cymru/datganiad-polisi-pridd-amaethyddol

**Tabl 1: Buddion 'rheoli pridd yn dda' a nodwyd gan gyfranogwyr.**

| Buddion economaidd | Buddion swyddogaethol | Buddion ecosystem |
|---|---|---|
| Gwell pwysau cnwd<br>Llai o gostau mewnbwn<br>Mwy o effeithlonrwydd a phroffidioldeb<br>Busnes fferm mwy cynaliadwy yn y tymor hir | Cadw maetholion yn well<br>Gwell ymdreiddiad a chadw dŵr<br>Gwell hydrinedd<br>Mwy o ffrwythlondeb pridd<br>Cnydau a glaswellt iachach<br>Da byw iachach<br>Mwy o wydnwch fferm rhag digwyddiadau tywydd eithafol | Dal carbon<br>Cefnogi bioamrywiaeth<br>Mwy o gydnerthedd ecosystemau<br>Gwell swyddogaeth ecosystem |

**Ym marn y ffermwyr, beth yw'r heriau allweddol sy'n gysylltiedig â phridd a sut mae eu goresgyn?**

Yr heriau mwyaf cyffredin sy'n gysylltiedig â phridd a amlygwyd gan y cyfranogwyr oedd effeithiau tywydd gwael, cywasgu, a chynnal ffrwythlondeb pridd. Roedd y strategaethau ar gyfer ymdrin â heriau tywydd niweidiol yn amrywio, ond un strategaeth allweddol ar gyfer lleihau erydiad a grybwyllwyd gan lawer o ffermwyr oedd lleihau gwaith troi'r tir a/neu reoli'r trin yn ofalus mewn ymateb i gyflwr y pridd ac amodau'r tywydd. Roedd y cyfranogwyr yn defnyddio ystod o atebion ar gyfer cywasgu, gydag amlder ac amrywiaeth y rhain yn dangos pa mor gyffredin yw'r her hon a pha mor bwysig yw gwella strwythur pridd, ym marn y ffermwyr yr ymgysylltwyd â hwy. Roedd yr atebion mwyaf poblogaidd yn cynnwys defnyddio peiriannau i dorri haenau cywasgedig o bridd. Bydd ffermwyr yn cynnal ffrwythlondeb pridd trwy reoli pH eu priddoedd trwy gymhwyso calch, rheoli tail a slyri yn ofalus, a defnyddio cynlluniau rheoli maetholion.

Trafododd y cyfranogwyr hefyd sut roedd diffyg gwybodaeth a/neu ddata a gwrthdaro neu gyfaddawdu rhwng gwahanol swyddogaethau pridd yn cyfyngu ar eu gallu i reoli priddoedd yn gynaliadwy. Amlygwyd diffyg adroddiadau ar gynnwys deunydd organig pridd wrth ddadansoddi pridd a diffyg gwybodaeth a/neu ddata sydd ar gael i asesu bioamrywiaeth pridd fel heriau i nifer o ffermwyr wrth fonitro a rheoli'r elfennau hyn ar eu ffermydd. Mynegodd llawer o ffermwyr eu bod yn cael trafferth cydbwyso cefnogi swyddogaethau ecolegol pridd, sydd ddim yn dwyn buddion uniongyrchol i'r ffermwr, gyda'r anghenion tymor byrrach ar gyfer cynhyrchiant ac elw amaethyddol.

**Sut mae ffermwyr yn cael gwybodaeth a chyngor ynghylch rheoli pridd a sut y gellir gwella hyn?**

Dywedodd y cyfranogwyr eu bod yn cael gwybodaeth a chyngor ynghylch rheoli pridd o nifer helaeth o wahanol ffynonellau, e.e. rhwydweithiau cymheiriaid, y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol, y byd academaidd, busnesau, ymgynghorwyr, a sefydliadau llywodraethol ac anllywodraethol. Un adborth neilltuol a dderbyniwyd gan y cyfranogwyr oedd eu bod yn hapus i dderbyn gwybodaeth a chyngor gan amrywiaeth o ffynonellau ond

eu bod yn gwerthfawrogi ffynonellau diduedd a'r rhai sy'n seiliedig ar berthnasoedd parhaus a dibynadwy.

Y prif feysydd a amlygwyd i'w gwella oedd cynyddu gwybodaeth am briddoedd Cymru drwy ymchwil a monitro a chynnig hyfforddiant a chymorth penodol i ffermwyr i'w galluogi i gynnal dadansoddiad pridd a rhoi unrhyw ddata a gesglir ar waith. Cyfeiriodd llawer o'r cyfranogwyr at ddymuniad i gael cymorth ariannol ar gyfer costau ac offer dadansoddi a monitro pridd. Roedd ffermwyr yn awyddus i ddata fod ar gael mewn fformatau mwy hygyrch, a dull mwy amserol, er mwyn iddo fod mor ddefnyddiol â phosibl.

### Adborth uniongyrchol ar y DPPA

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ffermwyr eu bod, at ei gilydd, yn cefnogi datblygu Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol Llywodraeth Cymru, gan fod yr amcanion yn debyg i brofiadau ar eu ffermydd. Yn ogystal â hyn, cynigiodd y cyfranogwyr awgrymiadau a meysydd i'w gwella:

- Ymgorffori fframio ac iaith fwy cadarnhaol er mwyn adlewyrchu cyflwr da priddoedd Cymru ar hyn o bryd a chyflwyno uchelgeisiau mwy cadarnhaol ar gyfer y dyfodol.
- Cyflwyno priddoedd ac iechyd pridd mewn modd mwy cydgysylltiedig, gan fod gwahanu materion yn amcanion a blaenoriaethau yn eu gwahanu'n artiffisial.
- Cynnwys cyfeiriadau mwy eglur at reoli dŵr.
- Dangos sut mae'r datganiad yn integreiddio â pholisïau a rheoliadau presennol eraill sy'n effeithio ar briddoedd a ffermwyr er mwyn osgoi gwrthdaro yn ymarferol.
- Ystyried sut y bydd yr amcanion polisi yn cael eu cyflawni yn ymarferol.

## Pwyntiau allweddol i'w hystyried ar gyfer y DPPA

### Cyflwr pridd

Ar y cyfan, roedd y cyfranogwyr yn credu bod eu priddoedd mewn cyflwr da, sy'n cyd-fynd â thystiolaeth ar raddfa genedlaethol o'r Adolygiad o Dystiolaeth Pridd Cymru[3]. Awgrymodd nifer o ffermwyr y gellid newid fframio a geiriad y datganiad i adlewyrchu'n well pa mor dda yw cyflwr priddoedd Cymru yn gyffredinol.

### Cydgysylltiad priddoedd

Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi bod eu priddoedd yn bwysig i ecosystemau, i'w ffermydd ac i Gymru, gan fynegi barn sy'n cydredeg â nodau eang y DPPA i warchod, cynnal a gwella priddoedd amaethyddol i sicrhau cynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol. Fodd bynnag, roedd nifer o gyfranogwyr o'r farn bod iechyd a rheolaeth pridd yn gyfannol eu natur, yn hytrach na bod yn elfennau hawdd eu gwahanu'n wahanol agweddau, ac roeddent am i hyn gael ei fynegi'n gliriach yn y datganiad, gan gynnwys elfennau fel rheoli dŵr a newid yn yr hinsawdd yn fwy penodol.

3 Adolygiad o Dystiolaeth Pridd Cymru: Adolygiad o dystiolaeth pridd Cymru | LLYW.CYMRU

### Buddion a chymhellion i 'reoli pridd yn dda'

Roedd ffermwyr yn canolbwyntio'n bennaf ar fuddion economaidd a swyddogaethol arferion 'rheoli pridd yn dda' ar gyfer busnes y fferm, a allai adlewyrchu'r pwysau uniongyrchol sydd ar ffermwyr i sicrhau bod ganddynt fusnes a bywoliaeth hyfyw. Roedd y mwyafrif yn cytuno y byddai cymhelliant ar gyfer buddion ecosystemau yn cefnogi ac yn annog ffermwyr ymhellach i reoli eu priddoedd yn gynaliadwy.

### Heriau ac amcanion sy'n gysylltiedig â phridd

Roedd cysylltiad agos rhwng rhai o'r heriau a amlinellwyd gan ffermwyr a'r bygythiadau a'r heriau a amlygwyd yn y DPPA, gan nodi eu perthnasedd i briddoedd Cymru a ffermwyr Cymru. Mae hyn yn arbennig o wir am gywasgu, ac fe ddywedodd llawer o'r cyfranogwyr ffermio fod hyn yn her allweddol iddynt, yn ogystal ag effeithiau tywydd garw, sy'n gysylltiedig â bygythiad y newid yn yr hinsawdd sy'n dod i'r amlwg. Amlygodd ffermwyr eu bod yn poeni am gynnal a gwella deunydd organig pridd a bioamrywiaeth pridd ond bod rhwystrau gwybodaeth a oedd yn her wrth fonitro a rheoli'r ffactorau hyn ar eu ffermydd. Tynnwyd sylw at un her nodedig na soniwyd amdani yn y DPPA drafft, sef cynnal ffrwythlondeb pridd. Hefyd, amlygodd adborth y gweithdy ffermwyr fod cydbwyso gwahanol flaenoriaethau a/neu swyddogaethau pridd yn gallu bod yn heriol yn ymarferol (e.e., cynnal cynhyrchiant da byw ac osgoi cywasgu ar yr un pryd).

### Rhannu gwybodaeth

Dywedodd y cyfranogwyr eu bod yn hapus i ddefnyddio gwybodaeth a chyngor o ystod o ffynonellau ond mae'n well ganddynt rannu profiadau ymarferol a gwybodaeth a chyngor diduedd o ffynonellau y mae ganddynt berthynas ddibynadwy a pharhaus â nhw.

### Gwybodaeth am briddoedd

Roedd ffermwyr yn teimlo y gallent gael eu cefnogi'n well trwy gael mwy o wybodaeth am briddoedd Cymru o ymchwil a monitro pellach (yn enwedig ar raddfa hirdymor a graddfa fferm); fodd bynnag, mynegodd nifer o'r cyfranogwyr bryder ynghylch sut y byddai monitro'n cael ei gyflawni'n ymarferol. Hefyd, roedd y cyfranogwyr eisiau cymorth pellach i'w galluogi i ddadansoddi pridd, deall data cysylltiedig a'i roi ar waith, gan gynnwys cyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd mwy hygyrch ac ystyrlon i ffermwyr a rheolwyr tir.

# 02
# Cyflwyniad

## Cyd-destun polisi

Mae tri digwyddiad pwysig diweddar wedi sbarduno newidiadau eang yn y tirlun polisi sy'n ymwneud â phridd yng Nghymru, sef:

1. Sefydlu Deddf Amaethyddiaeth y DU (2020) ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Ymadael â'r UE) ym mis Ionawr 2020 – gan arwain at ddatblygu Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS)[4] ar gyfer Cymru.
2. Datgan Argyfwng Hinsawdd yng Nghymru ym mis Ebrill 2019 – gan gydnabod her y newid yn yr hinsawdd a'i fygythiadau i iechyd, economi, seilwaith ac amgylchedd naturiol Cymru.
3. Datgan Argyfwng Natur yng Nghymru ym mis Mehefin 2021 – gyda'r nod o ddechrau atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth.

Mae cysylltiad rhwng yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur ac ers ymadael â'r UE, daeth cyfle i fynd i'r afael â'r rhain drwy bolisi amaethyddol wedi'i deilwra i Gymru.

Mae'r tirlun polisi wedi'i fframio hefyd gan ddeddfwriaethau pwysig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Deddf yr Amgylchedd (2016) sy'n annog rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR) drwy wynebu eu dirywiad hirdymor heb gyfaddawdu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

O fewn y cyd-destun hwn, mae Tîm Priddoedd a Defnydd Tir Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Chymrawd Ymchwil i ddatblygu Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol (DPPA) i Gymru. Ar hyn o bryd nid oes polisi pridd cyffredinol na rheoliad penodol ar gyfer gwarchod pridd yng Nghymru. Mae polisïau ar waith sy'n berthnasol i briddoedd ond maent wedi'u hymestyn ar draws llawer o feysydd polisi ac ar y cyfan, fe'u cyfyngir i swyddogaethau neu effeithiau penodol priddoedd. Bwriad y Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol (DPPA) yw amlinellu'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer rheoli a gwarchod priddoedd amaethyddol yn gynaliadwy yng Nghymru a'r cwmpas ar gyfer ystyried priddoedd o fewn ymyriadau polisi a chyflawni.

Er mwyn llywio datblygiad y DPPA, mae Tîm Priddoedd a Defnydd Tir Llywodraeth Cymru wedi gweithio i adolygu'r dystiolaeth bresennol a chasglu tystiolaeth newydd gan randdeiliaid.

## Ymchwil blaenorol

Cynhyrchodd y Tîm Priddoedd a Defnydd Tir Adolygiad o Dystiolaeth Pridd Cymru[5] yn amlygu'r cyd-destun polisi, y statws cyfredol, bygythiadau yn y dyfodol, a'r cyfleoedd sy'n wynebu priddoedd amaethyddol yng Nghymru. Canfu'r adolygiad hwn o dystiolaeth fod priddoedd yng Nghymru yn uchel mewn carbon ac yn gyffredinol mewn perygl isel o ddiraddiad, pan gânt eu rheoli o fewn systemau glaswelltir trechaf. Fodd bynnag, gall colli carbon a bioamrywiaeth pridd, erydiad pridd a chywasgu ddigwydd mewn ardaloedd lle mae rheolaeth tir amhriodol neu ddefnydd tir wedi newid.

4 Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) fydd y cynllun cymorth amaethyddol newydd yng Nghymru, gan ddisodli Cynllun y Taliad Sylfaenol sydd wedi'i ariannu gan y DU ers gadael yr UE yn 2021. Bydd Cynllun y Taliad Sylfaenol yn ddiogel tan 2023 ac ar ôl hynny bydd yn pontio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gan agor yn swyddogol ym mis Ionawr 2026.

5 Adolygiad o Dystiolaeth Pridd Cymru: Adolygiad o dystiolaeth pridd Cymru | LLYW.CYMRU

Amlygodd yr adolygiad hefyd fod newid hinsawdd yn debygol o effeithio ar briddoedd Cymru yn y dyfodol, ac y bydd sbardunau i newid defnydd tir yn dwysáu. Helpodd y canfyddiadau hyn i nodi'r blaenoriaethau allweddol sy'n benodol i Gymru y mae angen mynd i'r afael â hwy i gyflawni gweledigaeth gyffredinol o ddefnyddio a rheoli priddoedd amaethyddol yn gynaliadwy.

Roedd y dystiolaeth hon yn sail i ddrafft cychwynnol y DPPA (gweler Atodiad 1). I fireinio'r datganiad hwn, nodwyd bod angen casglu adborth rhanddeiliaid ar y DPPA drafft.

## Ymchwil cyfredol

Bwriad yr ymchwil hwn oedd casglu gwybodaeth a mewnwelediad ychwanegol gan ffermwyr i gyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer y DPPA a llywio ei ddatblygiad.

Er bod yr adolygiad o dystiolaeth yn rhoi darlun ar raddfa genedlaethol o briddoedd Cymru, roedd angen tystiolaeth bellach o brofiad ffermwyr i ddeall a oedd, a sut oedd y canfyddiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu ar lefel leol, a sut oedd heriau cysylltiedig â phridd yn cael eu goresgyn yn ymarferol.

Yn haf 2022, comisiynwyd ADAS i gynnal cyfres o weithdai gyda ffermwyr a rheolwyr tir unigol. Nodir amcanion y gweithdai yn yr isadran isod. Ym mis Awst 2023, bu myfyriwr PhD ar leoliad gyda'r Tîm Priddoedd a Defnydd Tir yn dadansoddi'r data o drawsgrifiadau'r gweithdy ac mae canfyddiadau'r dadansoddiad wedi'u crynhoi yn yr adroddiad hwn.

**Nodau'r ymchwil**

Dyma nodau'r ymchwil hwn:

- Archwilio arferion presennol ffermwyr a'u profiadau o ran rheoli pridd ac unrhyw heriau cysylltiedig sy'n eu hwynebu.
- Casglu adborth ar ddrafft cyfredol y Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol (DPPA) a nodi cyfleoedd i'w ddatblygu ymhellach.

Er mwyn cyrraedd y nodau hyn, bwriad y gweithdai oedd ateb yr amcanion ymchwil canlynol:

1. Dod i ddirnad sut mae ffermwyr yn deall ac yn gwerthfawrogi priddoedd.
2. Deall sut mae ffermwyr yn "rheoli pridd yn dda" a buddion hynny yn eu barn hwy.
3. Ar sail eu profiadau, nodi'r heriau allweddol sy'n gysylltiedig â phridd, ym marn y ffermwyr, a'r hyn maent yn ei wneud i'w goresgyn.
4. Archwilio ymhle mae ffermwyr yn cael cyngor ar reoli pridd, y ffactorau sy'n dylanwadu ar hyn, a sut y gellid eu cefnogi'n well gyda gwybodaeth.
5. Casglu adborth uniongyrchol am y Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol a'i amcanion.

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ganfyddiadau'r gweithdai hyn gan archwilio profiadau ac arferion ffermwyr o ran rheoli priddoedd amaethyddol yng Nghymru.
Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ddirnadaeth, yr adborth a'r ystyriaethau a amlygwyd yn ystod ymgysylltiad â ffermwyr a rheolwyr tir i gyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol (DPPA) Llywodraeth Cymru a llywio ei ddatblygiad.

03

# Methodoleg yr Ymchwil

## Dylunio astudiaeth a dewis dulliau

Mae'r ymchwil hwn yn ddisgrifiadol yn yr ystyr ei fod wedi ceisio dirnad yn fanwl brofiadau ac arferion ffermwyr y gellid eu defnyddio i lywio'r Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol.

Defnyddiodd yr ymchwil hwn ddulliau ansoddol. Dulliau ansoddol yw'r rhai mwyaf priodol ar gyfer ymchwil sy'n archwilio profiadau, agweddau a barn uniongyrchol oherwydd eu bod yn fodd o archwilio safbwyntiau goddrychol yn fanwl a thoreithiog (Silverman, 2013[6]). Maent hefyd yn diogelu lleisiau'r cyfranogwyr, sy'n bwysig wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Yn unol â'r nodau disgrifiadol, defnyddiodd yr astudiaeth grwpiau ffocws ar-lein. Y sail resymegol dros wneud hynny oedd y byddai modd casglu ystod amrywiol o safbwyntiau a byddent yn annog trafodaeth fanwl rhwng y cyfranogwyr.

## Samplu

Y nod cychwynnol oedd cael sampl o 63 o gyfranogwyr (tua 0.25% o'r 24,677 o ffermydd yng Nghymru) a oedd yn adlewyrchu'n fras gyfran y ddemograffeg fferm, gan gynnwys prif weithgaredd a maint economaidd o Arolwg Amaethyddol Cymru, Mehefin 2020[7]. Mae data'r arolwg yn awgrymu mai ffermydd micro economaidd yw'r rhan helaethaf o ffermydd Cymru tra bod ffermydd economaidd fawr ac economaidd fach yn cyfrif am fwyafrif y tir a ddefnyddir at ffermio[8]. Fodd bynnag, roedd y tîm ymchwil yn teimlo y byddai ffermwyr yn amharod i roi data ar faint economaidd felly ni ddefnyddiwyd yr wybodaeth hon i lywio'r sampl. At ddibenion y DPPA, ystyriwyd bod math y fferm a maint y tir (Ha) yn fwy perthnasol i'r pwnc ac felly blaenoriaethwyd y rhain wrth recriwtio'r sampl. Er enghraifft, dangosodd data'r Arolwg Amaethyddol (Mehefin 2020) mai ffermydd y mae eu gweithgarwch pennaf yn ymwneud â phori sy'n ffurfio'r gyfran uchaf o dir a ddefnyddir ar ffermydd Cymru. O ganlyniad, roedd y sampl a awgrymwyd (tabl 2) yn rhoi mwy o sylw i ffermydd pori.

6 Silverman, D. (2013) Doing Qualitative Research (4ydd arg.). Llundain: Sage.
7 Arolwg Amaethyddol Cymru, Mehefin 2020. Arolwg o amaethyddiaeth a garddwriaeth: Mehefin 2020 | LLYW.CYMRU
8 Er gwybodaeth, ffermydd yn ôl maint economaidd (Arolwg Amaethyddol Cymru, 2020):
Ffermydd micro (gydag allbwn safonol o dan €25,000)
Ffermydd bach (gydag allbwn safonol o fwy na €25,000 ond o dan €125,000)
Ffermydd mawr (gydag allbwn safonol o fwy na €125,000)

**Tabl 2: Sampl ymchwil a awgrymwyd ar sail Arolwg Amaethyddol Cymru 2020**

| | Fferm ficro (<25 ha) | Fferm fach (25-99 ha) | Fferm fawr (100+ ha) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Llaeth | 1 | 1 | 8 | **10** |
| Pori (Defaid a Chig Eidion) | 9 | 22 | 13 | **44** |
| Âr, Garddwriaeth, Moch a Dofednod | 1 | 1 | 2 | **4** |
| Arall | 4 | 0 | 1 | **5** |
| **Cyfanswm** | **15** | **24** | **24** | **63** |

Cafodd y sampl ei recriwtio drwy hunan-ddethol heb fod ar hap. Dosbarthodd y Tîm Priddoedd a Defnydd Tir daflen i ffermwyr drwy lwybrau ymgysylltu presennol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Cyswllt Ffermio, cylchlythyr SFS a'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm. Gallai unrhyw un a hoffai gymryd rhan ddilyn dolen i gwblhau arolwg byr ar-lein. Mynegodd tuag 80 o ffermwyr a rheolwyr tir ddiddordeb mewn cymryd rhan ac yna cysylltodd ADAS â nhw i sicrhau eu bod ar gael ar gyfer y gweithdai. Y dull gweithredu oedd blaenoriaethu nifer y cyfranogwyr gyda'r nod o gyflawni sampl a oedd yn cwmpasu ystod dda o fathau a meintiau o ffermydd (mewn Ha). O'r rhai a fynegodd ddiddordeb, roedd 31 o unigolion yn gallu mynychu dyddiadau'r gweithdy. Mae'r sampl hon yn cynrychioli tua 0.125% o gyfanswm y boblogaeth ffermydd. Cynlluniwyd pob gweithdy yn wreiddiol i ganolbwyntio ar sectorau amaethyddol penodol i gynyddu cynrychiolaeth, ond roedd natur gymysg llawer o ffermydd yn cyfyngu ar ymarferoldeb hyn.

Roedd y sampl derfynol yn cynnwys 31 o gyfranogwyr (mewn pum gweithdy) o ffermydd o wahanol fathau, meintiau a lleoliadau daearyddol a oedd, er nad oeddent yn gynrychioliadol, yn adlewyrchu'n fras y mathau amrywiol o ffermydd ledled Cymru, gyda phori'n brif weithgarwch. Yn eu mysg cafwyd ffermydd defaid, cig eidion, llaeth, âr, garddwriaeth, dofednod, a moch. Roedd gan y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr system ffermio gymysg ac felly roeddent yn cynrychioli mwy nag un sector ar eu fferm, a'r mwyafrif yn nodi bod eu system ffermio yn cynnwys Defaid (88.9%) ac yna Cig Eidion (67.7%).

**Tabl 3: Gwybodaeth am fynychwyr y gweithdai**

| Rhif y gweithdy | Sectorau a gynrychiolwyd | Fferm ficro (<25 ha) | Fferm fach (25-99 ha) | Fferm fawr (100+ ha) | Cyfanswm y mynychwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithdy 1 | Defaid, Cig Eidion | 2 | 3 | 1 | **6** |
| Gweithdy 2 | Defaid, Cig Eidion | | 6 | 1 | **7** |
| Gweithdy 3 | Defaid, Cig Eidion, Llaeth, Âr, Garddwriaeth, Dofednod, Moch | | 2 | 3 | **5** |
| Gweithdy 4 | Defaid, Cig Eidion, Llaeth, Âr, Arall | | 1 | 5 | **6** |
| Gweithdy 5 | Defaid, Cig Eidion, Llaeth, Âr, Garddwriaeth, Dofednod, Arall | | 2 | 5 | **7** |
| **Cyfanswm** | | **2** | **14** | **15** | **31** |

## Datblygu offerynnau ymchwil

Cyn i'r ymchwil ddechrau, cynhaliwyd gweithdy peilot i helpu i lywio cynllun y gweithdy o ran fformat, amseriad, strwythur a chynnwys. Gwahoddodd ADAS bum ffermwr i roi mewnbwn ar fformat y gweithdai ac adolygu perthnasedd pynciau trafod. Datblygwyd Canllaw Pwnc y gweithdai gan ADAS gyda chyfraniad gan y Tîm Priddoedd a Defnydd Tir ac fe'i llywiwyd gan adborth o'r gweithdy peilot (gweler Atodiad 2). Mae canllaw pwnc y gweithdai wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

## Cynnwys a chyflwyniad y gweithdai

Cyflwynwyd y pum gweithdy ar-lein ar blatfform Microsoft Teams. Roedd y penderfyniad i ddefnyddio dulliau ar-lein yn ymarferol ac yn foesegol. Roedd cyfweliadau ar-lein yn gwneud cyfranogiad yn hygyrch heb anghyfleustra gormodol na chostau teithio i'r cyfranogwyr ac felly'n lleihau'r baich ar y cyfranogwyr.

Cafodd y gweithdai eu strwythuro i (1) archwilio profiadau ac arferion cyfredol ffermwyr o ran rheoli pridd ac unrhyw heriau cysylltiedig sy'n eu hwynebu a (2) rhannu'r Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol (DPPA) drafft a chasglu adborth.

Arweiniwyd y gweithdai gan hwylusydd ac fe'u cofnodwyd trwy recordiad sain a nodiadau a wnaed gan ysgrifenyddion a oedd yn bresennol yn y gweithdy. Parhaodd y gweithdai am ddwy awr gan gwmpasu pynciau a amlinellwyd yn y canllaw pwnc lled-strwythuredig (gweler atodiad 3).

Dechreuodd y gweithdai gyda chyflwyniad ar y Datganiad Polisi Pridd drafft, a gyflwynwyd gan un o swyddogion Llywodraeth Cymru, a adawodd wedyn er mwyn i'r cyfranogwyr drafod mor agored a gonest â phosibl. Roedd ail gyflwyniad, a gyflwynwyd gan arbenigwr pridd ADAS, yn archwilio heriau cyffredin yn ymwneud â phridd yng Nghymru, i ysgogi trafodaeth ynghylch yr heriau rhanbarthol a lleol a wyneba ffermwyr wrth reoli eu priddoedd, a sut y maent yn goresgyn y rhain.

Y pynciau a drafodwyd oedd:

1. Ymateb ffermwyr i'r DPPA ac adborth.
2. Sut mae ffermwyr yn asesu eu priddoedd a sut maent yn cymharu â phriddoedd ledled Cymru.
3. Pa heriau cysylltiedig â phridd sy'n wynebu ffermwyr yn lleol a sut maent yn ymdrin â nhw.
4. Sut mae ffermwyr yn "rheoli pridd yn dda" ar eu ffermydd a manteision hyn.
5. O ble caiff ffermwyr wybodaeth a chyngor ar briddoedd a sut y gellid eu cefnogi'n well.

Trawsgrifiwyd y gweithdai yn ddienw er mwyn gallu dadansoddi gan sicrhau cyfrinachedd y cyfranogwyr.

## Dadansoddiad

Defnyddiwyd dull thematig i ddadansoddi'r dystiolaeth o drawsgrifiadau'r gweithdai, ynghyd ag unrhyw sylwadau ysgrifenedig ychwanegol a dderbyniwyd gan gyfranogwyr ar ôl y gweithdai. Bu'r ymchwilydd intern PhD yn dadansoddi ymatebion y cyfranogwyr drwy leihau, segmentu a chategoreiddio (Braun a Clarke, 2006[9]) er mwyn amlygu themâu allweddol a ymddangosodd yn y data mewn perthynas â'r amcanion ymchwil.

Dilynwyd y broses ganlynol:

1. **Ymgyfarwyddo â'r data** – darllen drwy'r trawsgrifiadau ac amlygu sylwadau neu ymadroddion allweddol mewn perthynas ag amcanion yr ymchwil.
2. **Cynhyrchu codau cychwynnol** – categoreiddio testun yn godau drwy gymharu a chyferbynnu'r trawsgrifiadau i ddechrau.
3. **Chwilio am themâu** – adolygu'r codau a chyfuno neu ailgodio meysydd tebygrwydd/gorgyffwrdd yn gategorïau ehangach i nodi themâu sylfaenol y data.
4. **Adolygu a mireinio themâu** – adolygu a mireinio themâu i gynrychioli canfyddiadau unigryw a phenodol o'r data a'u hystyried mewn perthynas ag amcanion yr ymchwil.

9 Braun, V. a Clarke, V. (2006) 'Using thematic analysis in psychology', Qualitative Research in Psychology, 3(2), tt. 77–101.

## Gweithdy dilynol

Ar ôl ailddrafftio'r DPPA, gwahoddwyd cyfranogwyr yn y gweithdai gwreiddiol i weithdy dilynol, a hwyluswyd gan ADAS, lle dangoswyd cyflwyniad iddynt yn amlinellu sut roedd eu hadborth wedi llywio'r datganiad newydd a gwahodd sylwadau pellach. Mynychodd deuddeg o'r tri deg un o gyfranogwyr gwreiddiol y gweithdy dilynol hwn.

Y prif adborth a ddaeth i'r amlwg o'r gweithdy hwn oedd bod y ffermwyr am gael gwybodaeth ychwanegol i ddeall yn llawn sut roedd eu hymgysylltiad wedi llywio'r DPPA. Mewn ymateb i'r adborth hwn, anfonodd y Tîm Priddoedd a Defnydd Tir gopi o'r DPPA wedi'i ailddrafftio, crynodeb o'r adborth cychwynnol gan ffermwyr, a rhagor o wybodaeth am y mecanweithiau cyflawni posibl ar gyfer amcanion y datganiad (gweler Atodiad 5) at y mynychwyr. Ni chafwyd unrhyw adborth pellach gan y cyfranogwyr ar ôl i'r wybodaeth hon gael ei rhannu.



04
# Canfyddiadau

Crynhowyd y canfyddiadau i gyfleu lefel y cytundeb neu'r gefnogaeth ymhlith cyfranogwyr ar wahanol faterion.

Er enghraifft:

— **Y Rhan Fwyaf/Llawer/Pawb** – a ddefnyddir i gyfleu bod y mwyafrif o ffermwyr wedi gwneud sylwadau neu godi mater, ar draws y rhan fwyaf neu bob un o'r gweithdai.

— **Ambell Un/Rhai** – a ddefnyddir i gyfleu bod nifer fechan o ffermwyr wedi gwneud sylwadau neu godi mater, fel arfer mewn un neu ddau weithdy yn unig.

Nodir y canfyddiadau yn ôl amcan yr ymchwil gyda dyfyniadau i danlinellu'r pwyntiau a fynegir.

## Sut mae ffermwyr yn deall ac yn gwerthfawrogi eu priddoedd?

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr pa mor iach oedd y pridd ar eu ffermydd, a sut roedden nhw'n credu bod hyn yn cymharu â phriddoedd ledled Cymru. Gofynnwyd iddynt hefyd pa ddulliau yr oeddent yn eu defnyddio i asesu eu priddoedd ac iechyd pridd.

### Cyflwr pridd

Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn credu bod  eu priddoedd mewn cyflwr da neu iach ar y cyfan.

**"Rwy'n credu bod ein priddoedd yn weddol dda".**
Cyfranogwr 21

**“Mae iechyd y priddoedd yn dda”.**
Cyfranogwr 28

Teimlai rhai yn ansicr ynghylch cyflwr eu pridd am nad oedd ganddynt ffon fesur i wybod beth yn union yw 'pridd iach'. Credai ambell un nad oedd eu priddoedd yn iach iawn, a hynny'n bennaf oherwydd rheolaeth amaethyddol a oedd wedi diraddio pridd neu dopograffeg y tir yn y gorffennol, gan gynyddu pwysau megis erydiad pridd neu bridd dwrlawn.

**"Does gennym ni... ddim priddoedd iach iawn yma, roedd y tenant blaenorol yn hoffi gyrru o gwmpas cryn dipyn a chymryd llawer o doriadau byrnu heb roi dim yn ôl ar y tir...".**
Cyfranogwr 5

Nododd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr bwysigrwydd priddoedd i ecosystemau, i'w ffermydd, ac i Gymru.

**“Mae priddoedd yn bwydo bywyd!”**
Cyfranogwr 12

**"Gwyddom mai priddoedd yw'r cynhwysyn allweddol ar gyfer ffyniant".**
Cyfranogwr 24

**"Dydyn ni ddim yn gwneud unrhyw beth yng Nghymru, neu ddim yn ceisio gwneud dim yng Nghymru yn sicr, i niweidio ein hadnodd pwysicaf."**
Cyfranogwr 1

Roedd rhan fwyaf o ffermwyr y gweithdai'n cydnabod, er eu bod yn credu bod priddoedd Cymru mewn cyflwr da, fod angen gwarchod priddoedd, eu cynnal a chymhwyso gwelliannau wedi'u targedu iddynt er mwyn sicrhau cynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol. Roedd y rhan fwyaf wrthi'n chwilio am atebion a chymorth gyda hyn.

**"Mae ein priddoedd yn weddol dda, rwy'n credu, ond yn amlwg gallwn ni'n wastad eu gwella ac rydyn ni'n edrych i wella drwy'r amser".**
Participant 22

Roedd y rhan fwyaf o ffermwyr y gweithdai wedi dod ar draws rhywfaint o ddiraddiad pridd ar eu ffermydd ar ryw adeg. Awgrymodd rhai o'r cyfranogwyr fod rhywfaint o ddiraddiad yn ganlyniad anffodus ond anochel i rai arferion ffermio neu amodau tywydd (e.e. glaw trwm). Yr arferion a grybwyllwyd yn aml ymhlith y rhai sy'n cynnwys rhywfaint o ddiraddiad pridd oedd gaeafu da byw yn yr awyr agored, tyfu cnydau gwraidd neu indrawn, ac amaethu ar gyfer ailhadu. Roedd y rhesymau dros fabwysiadu neu barhau â'r arferion hyn yn amrywio ymhlith y ffermwyr a gymerodd ran yn y gweithdai. Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn teimlo tensiwn wrth geisio cydbwyso pwysau materion eraill â chynnal iechyd pridd.

**"Rydyn ni'n tueddu i aeafu cryn dipyn o stoc yn yr awyr agored, felly weithiau byddwn yn cael problemau [yn ymwneud â phridd]. Ond eto i gyd sut mae sgwario'r cylch o leihau mewnbynnau, a bod yn uned gymysg, a chadw da byw allan gymaint ag y gallwn ni drwy'r flwyddyn, sy'n llawer iachach iddyn nhw ac, ar y cyfan, cyn belled ag yr awn ni heb y digwyddiadau tywydd garw yma, yn well i'r fferm gyfan?"**
Cyfranogwr 22

Roedd eraill yn crybwyll defnyddio strategaethau i leihau effeithiau negyddol eu harferion ar briddoedd lle bo hynny'n bosibl.

**"Gydag indrawn, rwy'n credu mai'r hyn sy'n rhaid i chi fod yn ymwybodol iawn ohono, yn amlwg, yw pan fyddwch chi'n tynnu'r cnwd, os gallwch chi geisio tynnu'r cnwd hwnnw pan fydd y tywydd yn dda a chyflwr y ddaear yn dda ac yn deg, mae hynny'n mynd i leihau maint y cywasgu, gobeithio."**
Cyfranogwr 16

### Asesu priddoedd ac iechyd pridd

Roedd y rhan fwyaf o'r ffermwyr yr ymgysylltwyd â hwy yn cynnal rhyw fath o brofion neu ddadansoddiad pridd rheolaidd i fonitro cyflwr eu priddoedd.

**"Rydyn ni'n profi bob pum mlynedd, ac weithiau'n profi bob tair blynedd".**
Cyfranogwr 15

Roedd y profi a'r dadansoddi yn amrywio o brofion labordy ar gyfer ffactorau megis lefelau maetholion pridd, deunydd organig pridd, carbon organig pridd, a pH pridd i ddadansoddiad gweledol o ffactorau megis strwythur pridd a bioamrywiaeth pridd.

**"Yn bennaf, byddaf yn gwneud dadansoddiad pridd gweledol drwy fynd allan efo rhaw ac yna, fel y mae'n ei ddweud yn y llyfr, yn tyrchu rhawiad go fawr, a chael golwg ar y gwreiddiau... Mae'n rhoi arwydd o ba fath o gaeau sydd gennych".**
Cyfranogwr 25

Amlygodd y cyfranogwyr fod rhai priodweddau pridd yn llawer mwy anodd, costus, neu annibynadwy i'w hasesu, gan arwain at fylchau yn nealltwriaeth ffermwyr o'u priddoedd. Ymhlith y ffactorau penodol a amlygwyd roedd carbon pridd a bioamrywiaeth pridd.

> **“Mae (profion) carbon yn ddrud… os ystyriwch chi sawl darn o dir sydd gen i yma, os oes rhaid i mi wneud pob un, mae hynny'n ddrud”.**
> Cyfranogwr 16

Mae priodweddau eraill pridd yn symlach i ffermwyr eu hasesu, ac awgrymodd un cyfranogwr mai dyma pam mae cywasgu, er enghraifft, yn bryder allweddol i lawer o ffermwyr.

> **"Rwy'n credu bod cywasgu, yn ôl pob tebyg, yn cael ei ystyried ymhlith y pwysicaf [heriau cysylltiedig â phridd], oherwydd dyna'r mwyaf gweladwy i bawb o ddydd i ddydd. Wyddoch chi, dydych chi ddim wir yn mynd i dyrchu yn eich cae … o ddydd i ddydd i weld sut olwg sydd ar y pridd. Ond os ydych chi'n cerdded o gwmpas cae neu os ydych chi'n gyrru dros gae ac yn gallu gweld bod dŵr llonydd, yna rydych chi'n gwybod ar unwaith”.**
> Cyfranogwr 7

## Sut mae ffermwyr yn arfer “rheoli pridd yn dda” a beth yw'r buddion?

### Sut mae ffermwyr yn arfer “rheoli pridd yn dda”?

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr beth oedd ystyr ‘rheoli pridd yn dda’ ar eu ffermydd a pha agweddau ar hyn oedd bwysicaf yn eu barn nhw. Roedd y themâu a nodwyd amlaf gan y cyfranogwyr yn ymwneud â rheoli maetholion, rheoli da byw, gwella strwythur pridd, profi ac arsylwi, a rheoli aflonyddwch ar bridd. Mae gweddill yr is-adran hon yn trafod ymatebion sy'n ymwneud â phob thema.

#### Rheoli maetholion

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn bryderus iawn am gynnal ffrwythlondeb pridd ac yn dweud eu bod yn arfer rheoli maetholion wrth ‘reoli pridd yn dda’. Soniodd rhai am gael cynllun rheoli maetholion, tra bo eraill yn siarad yn fwy cyffredinol am yr arferion hyn. Roedd ffocws penodol ar leihau mewnbwn oddi ar y fferm, a hynny'n aml trwy ddefnyddio tail a slyri'n effeithiol, ac ar gymhwyso maetholion mewn modd wedi'i dargedu yn hytrach nag yn gyffredinol, wedi'i deilwra i anghenion gwahanol rannau o'r fferm.

> **"Dw i'n credu mai defnyddio tail buarth a slyri yn dda sy'n bwysig … Dim ond defnyddio'r holl faetholion hynny sydd gennych… a fydd yn helpu i greu gwell iechyd pridd”.**
> Cyfranogwr 16
>
> **"Dydw i ddim yn defnyddio dim byd synthetig o gwbl yn ein priddoedd. Oherwydd y mewnbynnau synthetig fydd y peth mwyaf a wnaiff y niwed mwyaf i fioleg eich pridd".**
> Cyfranogwr 26
>
> **"Mae ein holl brofion pridd yn cael eu gwneud o fewn parthau… yna mae ffosffad a photasiwm a chalch yn cael eu taenu'n gyfnewidiol…. A dweud y gwir, rydyn ni'n ei daenu lle mae ei angen ar y parthau o fewn y cae”.**
> Cyfranogwr 21

### Rheoli da byw

Dywedodd nifer o ffermwyr mai rheoli da byw yn ofalus yw un o'u ffyrdd pwysicaf o 'reoli pridd yn dda'. Trafododd y ffermwyr hyn, yn bennaf, eu ffyrdd o reoli pori da byw, neu'r ffyrdd yr hoffent reoli hynny, er mwyn lleihau effeithiau negyddol posibl (e.e. cywasgu) a chynyddu manteision (e.e. tail) i briddoedd, gan gynnwys technegau megis pori cylchdro a phori trwm.

**"Dwi'n defnyddio pori trwm i wella uwchbridd... Mwy o dail yn syth ar y tir... Mwy o weithgarwch microbaidd. Mwy o garbon yn y pridd ar gyfer cadw dŵr. Dwi'n siŵr bod 'na fwy".**
Cyfranogwr 18

**"Yr hyn fyddwn i wrth fy modd yn ei wneud yw pori cylchdro hynod fanwl gywir oherwydd rwy'n deall y byddai hynny'n cynyddu ffrwythlondeb y pridd a'r strwythur a phopeth yn y pridd".**
Cyfranogwr 23

Soniodd un o'r ffermwyr hefyd ei fod yn cyfyngu ar feddyginiaethau da byw er mwyn lleihau'r effeithiau ar fioamrywiaeth pridd.

**"Rydyn ni'n ceisio defnyddio cyn lleied o ddosau ag y gallwn ni, a rhai ohonyn nhw'n fwy llym i bridd nag eraill, fel y mectins... sydd yna'n mynd i'r tail sy'n glanio ar y cae, sydd yna heb gael ei ddiraddio gan yr holl chwilod a phethau... mae hynny'n cael effaith eithaf dramatig ar allu natur i weithio yn y pridd... nid dim ond yr hyn rydych chi'n ei wneud i'r pridd sy'n bwysig mewn gwirionedd, ond yr hyn a wnewch chi i'r anifeiliaid sydd ar y pridd".**
Cyfranogwr 8

### Gwella strwythur pridd

Soniodd llawer o ffermwyr am gynnal a gwella strwythur pridd fel un ffordd y maent yn arfer 'rheoli pridd yn dda' ar eu ffermydd. Yn benodol, disgrifiodd y cyfranogwyr awyru priddoedd gan ddefnyddio dulliau mecanyddol a botanegol (e.e. defnyddio gweithred tapwreiddiau dwfn i awyru'r pridd) i wella strwythur y pridd.

**"Rydyn ni wedi gwneud ychydig o waith ar y fferm gydag awyriad a chyfri pryfed genwair. Mae'r holl bethau hyn yn bwysig, oni bai eich bod wedi cael strwythur y pridd yn gweithio'n iawn, ni fyddwch chi'n elwa ar bethau fel adfywio, calch, ac ailhadu".**
Cyfranogwr 12

### Profi ac arsylwi

Dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod yn arfer 'rheoli pridd yn dda' trwy arsylwi a phrofi eu priddoedd yn rheolaidd. Roedd hyn yn bwysig er mwyn deall cyflwr cyffredinol eu priddoedd a'r gwahaniaethau mewn priodweddau pridd ar draws gwahanol rannau o'u ffermydd.

**"Mae wir yn rheidrwydd ac yn hanfodol, dwi'n meddwl, eich bod chi'r ffermwr yn cerdded hyd y caeau'n rheolaidd, a hynny yn ystod y gaeaf ac ar bob adeg arall o'r flwyddyn... mae'r caeau hyn yn dweud rhywbeth wrthych chi. Ac o'm rhan i, rwy'n tueddu i gadw llygad barcud arno. A dweud y gwir, roeddwn i mewn un borfa y bore yma a dydw i ddim yn hapus iawn o gwbl â hi oherwydd sylwais nad yw'r dom yn dadelfennu fel y dylai. Ydw i wedi colli rhai o'm chwilod y dom? Beth sy'n digwydd oddi tanodd gyda bioleg y pridd hwnnw?"**
Cyfranogwr 25

## Rheoli aflonyddwch ar bridd

Dywedodd rhai ffermwyr eu bod wedi gwneud newidiadau, neu eu bod wrthi'n gwneud newidiadau, i arferion troi tir i gefnogi iechyd pridd. Roedd llawer o'r ffermwyr hyn wedi cwtogi ar droi tir, neu hyd yn oed roi'r gorau iddo'n llwyr, er mwyn gwarchod deunydd organig a bioamrywiaeth pridd, cynnal strwythur y pridd, a lleihau cywasgu ac erydu. Soniodd rhai eraill am reoli amseriadau trin tir yn ofalus, mewn perthynas â ffactorau fel y tywydd, er mwyn lleihau eu heffeithiau.

> **"Rydyn ni wedi gweld gwelliant mawr yn sgil llai o droi tir. Nid peidio trin, ond rheoli'r troi, gwneud yr hyn sydd ei angen".**
> Cyfranogwr 22
>
> **"Fy mhrif beth fyddai rheoli'r amaethiadau hynny, rheoli'r priddoedd hynny, ei wneud ar yr adeg iawn, boed hynny'n ddigwyddiadau tywydd neu, wyddoch chi, amodau pridd".**
> Cyfranogwr 21

## Beth yw buddion "rheoli pridd yn dda"??

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr am y buddion allweddol a geir yn sgil 'rheoli pridd yn dda'.

Roedd pawb a gymerodd ran yn y gweithdai yn cydnabod bod cynnal priddoedd iach yn fuddiol, ac yn hanfodol i weithrediad llwyddiannus y system ffermio.

> **"Os na fyddwn ni'n gofalu am y priddoedd, dyw'r fferm ddim yn mynd i ofalu amdanom ni. Felly mae hi".**
> Cyfranogwr 16

Roedd yr ymatebion a gafwyd ar draws grwpiau a chyfranogwyr y gweithdai yn debyg iawn, a gellir eu grwpio'n fras yn fuddion economaidd, buddion swyddogaethol, a buddion ecosystem. Soniodd rhai cyfranogwyr hefyd am fudd cymdeithasol gadael etifeddiaeth i genedlaethau'r dyfodol. Mae Tabl 4 yn nodi'r mathau o fuddion a nodwyd gan gyfranogwyr. Yna, mae gweddill yr adran hon yn archwilio barn y cyfranogwyr am y buddion hyn yn fanylach.

**Tabl 4: Buddion 'rheoli pridd yn dda' a nodwyd gan gyfranogwyr.**

| Buddion economaidd | Buddion swyddogaethol | Buddion ecosystem |
|---|---|---|
| Gwell pwysau cnwd<br><br>Llai o gostau mewnbwn<br><br>Mwy o effeithlonrwydd a phroffidioldeb<br><br>Busnes fferm mwy cynaliadwy yn y tymor hir | Cadw maetholion yn well<br><br>Gwell ymdreiddiad a chadw dŵr<br><br>Gwell hydrinedd<br><br>Mwy o ffrwythlondeb pridd<br><br>Cnydau a glaswellt iachach<br><br>Da byw iachach<br><br>Mwy o wydnwch fferm rhag digwyddiadau tywydd eithafol | Dal carbon<br><br>Cefnogi bioamrywiaeth<br><br>Mwy o gydnerthedd ecosystemau<br><br>Gwell swyddogaeth ecosystem |

### Buddion economaidd

Rhoddodd y cyfranogwyr bwyslais mawr ar fuddion economaidd 'rheoli pridd yn dda', sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â'r ffordd yr oedd yr holl gyfranogwyr yn cynrychioli busnesau ffermio masnachol. Roedd y rhan fwyaf o ffermwyr yn pwysleisio enillion cynhyrchiant fel budd allweddol, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd drwy leihau mewnbynnau costus megis gwrtaith.

> **"Os yw ffermwr yn gwneud hyn [rheoli pridd yn dda] neu os yw ffermwr yn gwneud ychydig o hyn, bydd eu cynnyrch yn cynyddu. Felly mae 'na reswm awtomatig dros wneud y pethau yna".**
> Cyfranogwr 14
>
> **"Os yw eich priddoedd yn gweithio, ni fydd angen rhai o'r mewnbynnau drutaf arnoch chi... mae priddoedd da, rheoli pridd yn dda, yn hafal i elw. Oherwydd os gallwch chi leihau'r mewnbynnau synthetig hynny ... bydd pawb ar ei ennill".**
> Cyfranogwr 25

Nododd rhai ffermwyr hefyd fod cynnal a gwella priddoedd wedi arwain at fusnes fferm mwy cynaliadwy yn y tymor hir, oherwydd y farn y gellir cynnal swyddogaeth gynhyrchiol priddoedd heb orfod troi at fwy o ymyriadau a buddsoddiadau dros amser.

> **"Mae'n golygu gwarchod a gwella eich fferm ar gyfer y dyfodol".**
> Cyfranogwr 16

Awgrymodd un ffermwr y gallai cynnal priddoedd iach hefyd gynyddu proffidioldeb ffermydd mewn ffyrdd anuniongyrchol trwy gynyddu marchnadwyedd cynhyrchion (e.e. cig/llaeth carbon sero net) a dod ag incwm eilaidd i mewn trwy ddal carbon.

### Buddion swyddogaethol

Soniodd y rhan fwyaf o ffermwyr hefyd am fuddion swyddogaethol i briodweddau pridd, cnydau, porthiant a da byw drwy 'reoli pridd yn dda'. Bwriad y categori buddion swyddogaethol yw cwmpasu'r gwelliannau hynny sy'n cefnogi llai o ymyriadau, cynhyrchu cynhyrchion amaethyddol o ansawdd uwch (cnydau, cig, llaeth), a/neu fwy o gynhyrchiant neu effeithlonrwydd fferm.

Roedd y ffermwyr a fu'n trafod yn pwysleisio bod priddoedd iach yn mynnu llai o fewnbwn o'r fferm, llai o ddyfrhau, llai o droi tir, a'u bod yn fwy gwydn yn wyneb hinsawdd sy'n newid.
Roedd y cyfranogwyr o'r farn bod priddoedd iach yn cynhyrchu cnydau, porthiant a da byw iachach hefyd, gan fynnu llai o blaladdwyr a gwrthfiotigau, sy'n arwain o bosibl at fwy o gnydau a chynhyrchion o well ansawdd i'w gwerthu.

> **"Mae pridd iach yn creu glaswellt iach sy'n creu anifeiliaid iach".**
> Cyfranogwr 12
>
> **"Mae gennym ni well tyfiant glaswellt, gwell gorchudd a gwelliant ar gyfer unrhyw oblygiadau tywydd, boed yn llifogydd neu'n sychder... ac yna gallwn weithio tuag at system gost is yn y tymor hir".**
> Cyfranogwr 17

### Buddion ecosystem

Cyfeiriodd llawer o'r cyfranogwyr at fuddion ecosystem yn sgil rheoli pridd yn gynaliadwy, o ran gwelliannau cyffredinol mewn swyddogaethau a gwydnwch ecosystemau, a ffactorau mwy penodol fel dal carbon a chynyddu bioamrywiaeth.

Cymerodd rhai ffermwyr olwg gyfannol trwy gysylltu'r buddion ecosystem hyn â'r buddion swyddogaethol ac economaidd a drafodwyd uchod.

**"Mae'r fioamrywiaeth yn iachach ac mae hynny fel petai i'w weld yn yr anifeiliaid eu hunain, oherwydd mae'n ymddangos bod yr hyn maen nhw'n ei fwyta yn gwneud mwy o ddaioni... mae'n gylch bywyd sy'n gweithio i'r tir ac i'r anifeiliaid a byd natur".**
Cyfranogwr 8

Roedd rhai cyfranogwyr o'r farn nad oedd effeithiau ecosystemau megis cynyddu bioamrywiaeth o reidrwydd yn fuddiol i ffermwyr oni bai eu bod hefyd yn troi'n fuddion economaidd.

**"Bioamrywiaeth ac uwchben ac islaw'r ddaear, nid yw o reidrwydd o fudd o gwbl oni chawn ein talu amdano".**
Cyfranogwr 25

**"Beth bynnag a wna'r llywodraeth, mae angen iddi sylweddoli bod yn rhaid i hynny dalu biliau'r fferm. Os na fydd, nid yw'n mynd i weithio".**
Cyfranogwr 11

Awgrymodd rhai ffermwyr efallai na fydd buddion ecosystem mwy anuniongyrchol neu hirdymor yn gallu cymell ffermwyr i roi blaenoriaeth i reoli pridd yn gynaliadwy wrth wynebu pwysau tymor byrrach neu flaenoriaethau croes megis costau cynyddol, ac felly y dylid gosod cymhellion wrth y rhain.

### Buddion cymdeithasol

Soniodd rhai ffermwyr hefyd fod buddion cymdeithasol i gynnal priddoedd iach, gan amlygu bod hyn yn eu galluogi i adael etifeddiaeth fferm iach a chynhyrchiol i genedlaethau'r dyfodol.

**"Mae'n golygu gwarchod a gwella eich fferm ar gyfer y dyfodol. Ac i mi, ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol sy'n dod i mewn nawr, a'r awydd i wynebu'r her honno, a mater i ni yw bod yn broffidiol a chael busnes cadarn".**
Cyfranogwr 16

**"Ry'n ni wedi ceisio cynnal y priddoedd gorau y gallwn... Yn amlwg, rydyn ni am gynnal popeth neu ei wella i'r genhedlaeth nesaf".**
Cyfranogwr 22

## Beth yw'r heriau allweddol sy'n gysylltiedig â phridd, a sut mae goresgyn y rhain?

Yr heriau mwyaf cyffredin yn ymwneud â phridd a amlygwyd gan ffermwyr y gweithdai oedd effeithiau tywydd gwael, cywasgu, a chynnal ffrwythlondeb pridd. Hefyd, fe drafodwyd sut mae diffyg gwybodaeth a/neu ddata, a gwrthdaro neu gyfaddawdu rhwng gwahanol swyddogaethau pridd, yn cyfyngu ar eu gallu i reoli priddoedd yn gynaliadwy.

### Effeithiau tywydd garw

Dywedodd llawer o ffermwyr eu bod yn cael mwy o dywydd garw sy'n effeithio ar briddoedd a'u gallu i'w rheoli'n gynaliadwy. Roedd rhai cyfranogwyr yn cysylltu'r digwyddiadau tywydd hyn yn benodol â newid yn yr hinsawdd, ond nid pawb. Ystyriwyd bod effeithiau digwyddiadau tywydd gwael yn heriau mawr i'r cyfranogwyr, yn enwedig erydiad, tir dwrlawn ac effeithiau sychder.

**"Rydym yn cael mwy o dywydd garw a dwys nag oeddem efallai yn arfer ei gael. Mae'n rhaid i mi fod yn ofalus iawn nawr pan fyddaf yn ailhadu, os byddaf yn ei adael ychydig yn hwyr yn yr haf, dywedwch ar ôl i gnwd haidd y gwanwyn gael ei dynnu, mae risg dŵr ffo, dŵr trwm yn golchi'r pridd sydd bron yn foel ymaith, wrth i'r ailhadu ddim ond dechrau bwrw gwreiddiau".**
Cyfranogwr 19

**"Rydyn ni wedi cael haf hynod o boeth sydd wedi effeithio'n fawr ar ein priddoedd oherwydd bu'n hynod sych. Mae'r tir wedi cracio ac aeth cryn amser cyn y gallem hyd yn oed drin y tir oherwydd bod y ddaear yn rhy galed i'w gweithio".**
Cyfranogwr 16

Roedd y strategaethau wrth ymdrin â'r heriau tywydd niweidiol hyn yn amrywiol iawn. Esboniodd un ffermwr ei fod yn ceisio cadw ei ffosydd yn glir er mwyn peidio cael tir dwrlawn mewn tywydd gwlyb. Pwysleisiodd un arall fod rheoli da byw mewn modd ymatebol yn strategaeth allweddol mewn sychder.

**"Rydyn ni'n ceisio peidio â gorbori. Rydyn ni'n trio gadael mwy na'r hyn a ddysgais yn y coleg oherwydd mewn haf sych, os ydych wedi pori'n rhy isel, bydd y ddaear yn sychu'n gyflym iawn".**
Cyfranogwr 8

Un strategaeth allweddol ar gyfer lleihau erydiad, a grybwyllwyd gan lawer o ffermwyr, oedd lleihau troi'r tir a/neu reoli amaethu'n ofalus mewn ymateb i amodau pridd a thywydd.

**"Fy mhrif un yw rheoli'r aredig, rheoli'r priddoedd, ei wneud ar yr adeg iawn, boed hynny'n oherwydd y tywydd neu, wyddoch chi, amodau pridd. Mae'n rhaid ei reoli'n gywir a dwi'n meddwl, os ewch chi pan fydd hi'n rhy wlyb… Mae gennych chi fwy o waith i'w wneud i'w wella eto. Dim ond ceisio gwneud beth bynnag rydych chi'n ei wneud ar yr adeg gywir gyda'r offer cywir i gael y canlyniad cywir".**
Cyfranogwr 21

### Cywasgu

Nododd llawer o'r cyfranogwyr fod cywasgu pridd yn her allweddol ar eu ffermydd. Priodolwyd cywasgu yn bennaf i bori da byw a defnyddio peiriannau yn ystod misoedd gwlyb. Soniodd rhai o'r cyfranogwyr hefyd fod storio tail mewn caeau cyn ei chwalu a glaw trwm ar briddoedd moel yn ffactorau sy'n cyfrannu at hyn. Oherwydd y glawiad uchel yng Nghymru, a chyfyngiadau fel diffyg adeiladau i aeafu da byw, roedd llawer o'r cyfranogwyr yn credu bod cywasgu yn ganlyniad anochel y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef yn barhaus.

**"Ry'n ni [defnyddio awyrydd] bob 2-3 blynedd fel arfer oherwydd, waeth pa mor dda ydych chi, rydych chi'n mynd ar y tir gwlyb, gyda'r tractorau neu'r trelars neu'r peiriannau, neu rydych chi'n cadw gwartheg a defaid allan yno. Felly… mae'r cywasgu yn dechrau cronni eto".**
Cyfranogwr 12

Defnyddiodd y cyfranogwyr ystod o atebion ar gyfer cywasgu; roedd nifer ac amrywiaeth y rhain yn dangos mynychder yr her hon a phwysigrwydd gwella strwythur y pridd, ym marn y cyfranogwyr. Roedd yr atebion mwyaf poblogaidd yn defnyddio peiriannau i dorri haenau cywasgedig o bridd, gan gynnwys ogedu, aredig yr isbridd, a throi ag aradr wadd.

> **“Dw i’n tueddu i ddefnyddio dulliau gwahanol i leddfu’r cywasgu, ac mae rhai ohonyn nhw’n datrys materion draenio hefyd, fel troi ag aradr wadd neu aredig yr isbridd”.**
> Cyfranogwr 14
>
> **"Rydyn ni’n gweld bod gennym oged gadwyn fawr iawn rydyn ni’n ei defnyddio pan fydd yr amodau’n iawn, ac rydyn ni’n gweld bod hynny’n dda iawn i’r priddoedd”.**
> Cyfranogwr 27

Soniodd rhai cyfranogwyr hefyd am newid eu harferion rheoli da byw i leihau cywasgu, er enghraifft trwy bori trwm neu aeafu detholus yn yr awyr agored.

> **"Mae fy ngwartheg yn symud yn gyflym iawn. Felly, os yw hi’n wlyb, efallai y byddant yn symud bob 12 awr. Os yw’n sychach, efallai y byddant yn symud mewn 36 awr, rwy’n monitro hynny… os yw’r gwartheg yn symud yn gyflym, dyw hynny ddim yn fater sathru”.**
> Cyfranogwr 26
>
> **"Mae gennym ni gaeau nad ydyn ni wir yn eu pori yn y gaeaf gyda gwartheg, dim ond gyda defaid, ac rydyn ni’n ei reoli yn ôl dyfnder y pridd yn y caeau neu a ydyn nhw’n gaeau gwlyb neu’n gaeau sych… Ffermio synhwyrol a dim gormod, wyddoch chi?"**
> Cyfranogwr 27

Roedd rhai ffermwyr yn brwydro yn erbyn cywasgu trwy dyfu cnydau gorchudd a phlanhigion gwreiddiau dwfn i sefydlogi ac awyru’r pridd. Defnyddiwyd y dull hwn yn aml ar y cyd â pheiriannau, a hynny weithiau i warchod a chynnal priddoedd ar ôl mynd i’r afael â chywasgu dyfnach. Ymhlith yr atebion eraill a grybwyllwyd gan rai cyfranogwyr oedd rheoli a chyfyngu ar fynediad cerbydau a pheiriannau yn ystod misoedd gwlypach, trosglwyddo i systemau bas-droi, a newid defnydd tir amaethyddol (e.e. rhoi’r gorau i dyfu indrawn).

### Cynnal ffrwythlondeb pridd

Pwysleisiodd llawer o’r cyfranogwyr fod cynnal ffrwythlondeb pridd yn flaenoriaeth ac yn her, yn enwedig wrth wynebu tywydd garw a chyfyngiadau economaidd.

> **"Mae’n amlwg mai ffrwythlondeb pridd yw’r brif flaenoriaeth i ffermwr, ac yn aml iawn cawn ein harwain gan gymhellion eraill neu godiadau prisiau negyddol felly, er enghraifft… ers y llynedd, mae pris gwrtaith wedi ei gwneud yn amhosibl defnyddio gwrtaith felly dwi’n credu y bydd rhywfaint o newid mewn priodweddau pridd dros y pum mlynedd nesaf wrth i ni geisio byw heb neu gyda llai o wrtaith".**
> Cyfranogwr 19
>
> **"Ein priddoedd, oherwydd eu bod wedi’u profi, fe wnaethon ni sylweddoli mai ffrwythlondeb yw’r broblem, ond un broblem yw’r glawiad trwm felly mae’n mynd i fod yn fater parhaus".**
> Cyfranogwr 8

Cyfeiriodd llawer o’r ffermwyr at reoli pH eu priddoedd trwy ddefnyddio calch fel strategaeth i gyfyngu ar golli maetholion.

> **“Calch, mae’n ateb amlwg. Hynny yw, pam ar y ddaear fyddai unrhyw un yn rhoi gwrtaith os yw’r pH yn rhy isel. Wyddoch chi, yn enwedig o ystyried ei bris, rwy’n credu ei fod yn rhywbeth y mae’n rhaid ei wneud. Dylid annog mwy o hyn”.**
> Cyfranogwr 6

Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn disgrifio rheoli gwrtaith a slyri yn ofalus fel strategaeth i wella ffrwythlondeb pridd hefyd, tra bod ambell un yn cyfeirio at ddefnyddio cynllun rheoli maetholion.

> **"Rydym wedi gwella'r ffosffad a photasiwm ar y fferm hon yn sylweddol iawn. Gwnaethpwyd hyn yn llwyr trwy chwistrellu llawer o slyri i'r caeau cyn i ni aredig mewn gwirionedd ac yna rhoi gwahanol wyndynnydd i mewn. Felly mae hynny wedi cael effaith fawr ar ein priddoedd yma, a'u gwneud nhw'n iachach".**
> Cyfranogwr 16

### Mesur deunydd organig pridd

Roedd ychydig o'r cyfranogwyr wedi profi eu lefelau deunydd organig pridd (SOM) yn benodol, ac amlygwyd bod diffyg adrodd ar ddeunydd organig pridd wrth ddadansoddi pridd yn her i rai ffermwyr wrth fonitro a rheoli lefelau SOM ar eu ffermydd. Roedd yna hefyd rywfaint o amheuaeth ymhlith y cyfranogwyr am ddibynadwyedd data SOM pan oedd ar gael.

Er bod y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn tybio bod lefelau eu deunydd organig yn uchel oherwydd rheolaeth glaswelltir dwysedd isel, roedd ychydig o ffermwyr yn teimlo bod lefelau isel o ddeunydd organig yn her ar eu ffermydd. Roedd y cyfranogwyr hyn yn ffermio'n bennaf ar lethrau serth a oedd yn agored i erydiad ac mae hyn yn dangos pa mor lleol y gall heriau sy'n gysylltiedig â phridd fod.

Prin y trafodwyd strategaethau ar gyfer cynyddu SOM, ar wahân i un ffermwr a oedd yn bwriadu ychwanegu tail o ffermydd eraill, ond dywedodd rhai ffermwyr eu bod wedi cwtogi ar droi'r tir fel strategaeth i warchod a chynnal lefelau presennol y deunydd organig yn eu priddoedd.

> **"Dy'n ni ddim wedi cyffwrdd â'r aredig ers wyth i ddeng mlynedd... Felly mae hynny'n llai o garbon yn cael ei dynnu allan, llai o garbon yn cael ei losgi i roi rhywbeth nôl i mewn".**
> Cyfranogwr 1

### Mesur bioamrywiaeth pridd

Awgrymodd llawer o'r cyfranogwyr fod diffyg mynediad at wybodaeth a/neu ddata i asesu bioamrywiaeth pridd yn her i fonitro a rheoli bioamrywiaeth pridd ar eu ffermydd.

> **"Sut ydych chi'n ei fesur? Wn i ddim. Er fy mod yn credu bod pobl mewn gwirionedd yn gwneud dadansoddiad DNA o samplau pridd i geisio pennu beth sy'n digwydd, mae hyn yn amlwg iawn ar flaen y gad o ran ymchwil. Nid dyma'r math o beth y gallwch ei wneud ar lefel fferm".**
> Cyfranogwr 2
>
> **"Yr anhawster a gefais yn y gorffennol yw hyn; os gallwch chi gael y cemegol a'r ffisegol yn iawn, yna nid yw'n hawdd cael bioleg yn iawn oherwydd nid yw'r samplau pridd cyffredin yn dweud wrthyf pa facteria a ffyngau sydd gen i yn y priddoedd hynny, ac yn wir sut i'w cael yn ôl gyda dulliau rheoli penodol. Yn y gorffennol rwyf hyd yn oed wedi eu hanfon draw i leoedd fel Parc Laverstoke i'w harchwilio yno, wyddoch chi, i gael dadansoddiad biolegol llawn. Ond mae'n ddrud iawn".**
> Cyfranogwr 25

Bydd rhai ffermwyr yn ymdrin â'r her hon drwy ganolbwyntio ar ddadansoddiadau pridd gweledol fel cyfrifiadau mwydod, ond roedd galw cyffredinol am fwy o hyfforddiant ac offer monitro bioamrywiaeth pridd ar ffermydd.

### Cydbwyso gwahanol flaenoriaethau

Yr agwedd rheoli pridd olaf a godwyd gan rai cyfranogwyr oedd cydbwyso gwahanol swyddogaethau pridd, am eu bod weithiau'n wynebu gwrthdaro neu gyfaddawdu rhyngddynt. Er enghraifft, roedd un ffermwr yn pryderu y gallai defnyddio calch i gynyddu ffrwythlondeb pridd gael effaith negyddol ar fioamrywiaeth pridd. Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn ei chael hi'n anodd cydbwyso swyddogaethau ecolegol pridd nad oedd yn dwyn buddion i'r ffermwr yn syth gydag elw a chynhyrchiant amaethyddol tymor byr.

> **"Yn y pen draw, yr hyn sy'n bwysig yw costau ac economeg gwneud hyn. A dwi'n gwybod be fyswn i'n hoffi [ei wneud] ond a alla i fforddio newid pethau a gwneud pethau i gyrraedd yno... mae'n digwydd pan fyddwn yn edrych tuag at wahanol ffyrdd o amaethu neu a ddylen ni fod yn edrych ar ryw fath o aredig yr isbridd neu ... cynhyrchu'r dywarchen fwy amrywiol hon. Sut allwn ni wneud hyn a beth yw'r gost?"**
> Cyfranogwr 22

Dywedodd un ffermwr y gallai hyn fod yn heriol iawn i ffermwyr-denantiaid oherwydd eu bod o dan bwysau i sicrhau canlyniadau tymor byr.

> **"Os ydych chi'n ceisio gwella pridd, mae'n adnodd eithaf tymor hir, ac mae llawer o fy ffrindiau ar denantiaethau treigl blwyddyn, tair blynedd, pum mlynedd... pan fyddan nhw'n denantiaethau tymor byr iawn, does 'na ddim cymaint o gymhelliant i wir feddwl am y tymor hir, dybia i".**
> Cyfranogwr 5

## Sut mae ffermwyr yn cael gwybodaeth a chyngor am reoli pridd a sut y gellir gwella hyn?

### O ble mae ffermwyr yn cael gwybodaeth a chyngor am reoli pridd?

Dywedodd y cyfranogwyr eu bod yn cael gwybodaeth a chyngor am reoli pridd o ystod eang o wahanol ffynonellau, gan gynnwys rhwydweithiau cymheiriaid, y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol, y byd academaidd, busnesau, ymgynghorwyr, sefydliadau llywodraethol ac anllywodraethol.

#### Rhwydweithiau cymheiriaid

Dywedodd y rhan fwyaf o ffermwyr ei bod yn well ganddynt gyfnewid gwybodaeth rhwng cymheiriaid trwy rwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol. Awgrymodd nifer o'r cyfranogwyr fod y rhwydweithiau hyn yn fwyaf effeithiol pan fyddant yn cynnwys ffermwyr â mathau tebyg o ffermydd neu o'r un ardal, tra bod rhai eraill yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys ffermwyr o genedlaethau hŷn a oedd â gwybodaeth am y gorffennol a phrofiad o wahanol fathau o dir ac arferion amaethyddol.

> **"Cyfnewidfa ffermwyr, rwy'n credu bod hynny'n bwysig iawn. Dwi'n meddwl mai yno y byddwch chi'n tueddu i gael y gwerth mwyaf ac rydych chi'n fwy tebygol o newid eich arferion o fod wedi gweld rhywun yn ei wneud yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus".**
> Cyfranogwr 5
>
> **[Am grwpiau ffermwyr] "maen nhw wir yn gweithio oherwydd eich bod yn rhannu profiadau gyda'ch cymdogion neu ffermwyr eraill fel y dywedwyd o'r blaen. Nid yr hyn sy'n gweithio mohono bob amser. Mae'n debyg y dysgwch chi fwy o'r hyn nad yw'n gweithio ... mae dim ond gwrando ar y bobl o gwmpas y bwrdd yn gwneud cryn wahaniaeth".**
> Cyfranogwr 1

### Y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol

Roedd y cyfryngau print, ar-lein a chymdeithasol yn ffynonellau gwybodaeth a chyngor pwysig i lawer o'r cyfranogwyr hefyd a'r enghreifftiau a grybwyllwyd yn cynnwys cylchgronau, podlediadau, fideos a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Soniodd ffermwyr am fanteision amrywiol defnyddio ffynonellau cyfryngau i gael gafael ar wybodaeth am arferion ffermio mewn gwledydd eraill, cyrchu cyngor arbenigol, a hwylustod a hygyrchedd fformatau fel podlediadau.

**"Rwy'n edrych ar-lein am lawer o bethau. Felly, mae gan Farmers Weekly gyngor, erthyglau a phethau da iawn. Aethom i chwilio am lawer o'n pethau ailhadu ar Farmers Weekly. Ac mae 'na dipyn o bethau, os y'ch chi'n hoffi hynny, mae 'na lawer o ddeunydd YouTube eitha da ar gael hefyd".**
Cyfranogwr 5

**"Dwi'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol o bryd i'w gilydd i ddeall pa arferion eraill sy'n digwydd gyda ffermwyr eraill, yn enwedig y tu allan i Gymru, achos dwi'n ystyried treialu pori trwm a phethau felly. Felly, dwi'n edrych ar bethau fel YouTube, a hefyd yn edrych ar Twitter".**
Cyfranogwr 15

### Cyrff llywodraethol ac anllywodraethol

Dywedodd nifer o'r ffermwyr eu bod wedi cael gafael ar rywfaint o wybodaeth a chyngor gan sefydliadau amaethyddol llywodraethol a/neu anllywodraethol. Cafwyd adborth cadarnhaol gan rai cyfranogwyr ar raglen Cyswllt Ffermio Llywodraeth Cymru, tra bod y sefydliadau anllywodraethol a grybwyllwyd yn cynnwys Rhwydwaith Ffermio Cyfeillgar i Natur, Cymdeithas y Pridd, a FarmEd

**"O'm safbwynt i, bu Cyswllt Ffermio yn amhrisiadwy... ".**
Cyfranogwr 7

**"Rydw i wedi cymryd rhan yn samplau pridd Cyswllt Ffermio ers cryn dipyn bellach. Ac rwy'n credu mai'r gefnogaeth a'r camau dilynol ... hynny sy'n bwysig, ynte?"**
Cyfranogwr 3

### Y byd academaidd

Soniodd ychydig o'r ffermwyr am ymchwil academaidd a chysylltiadau â sefydliadau academaidd fel ffynonellau gwybodaeth a chyngor, tra bod eraill yn awgrymu bod hwn yn adnodd na chaiff ddigon o ddefnydd ac a ddylai fod ar gael yn haws i ffermwyr.

**"Buom ar brosiect Prosoil gyda Phrifysgol Aberystwyth. Fe fuom yn ffodus iawn o gysylltu yno a chael cyngor hollol wych".**
Cyfranogwr 25

**"Fe aethon ni i ymweld â'r lleiniau glaswellt yn Aberystwyth a Chanolfan Arloesedd Bayo... maen nhw'n gwneud treialon ar ddulliau bas-droi a chnydau gwahanol i gael gwell dyfnder gwreiddiau. A dwi'n credu rhoi cyhoeddusrwydd i fwy o hynny a sicrhau ei fod ar gael i ffermwyr, fel y gallan nhw addasu'r hyn sydd ganddyn nhw gartref i'w heriau hwy eu hunain".**
Cyfranogwr 17

### Ymgynghorwyr

Dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod wedi cael cyngor gan ymgynghorwyr amaethyddol fel ADAS ac ymgynghorwyr annibynnol eraill. Soniwyd mai mantais y math hwn o gyngor yw ei fod wedi'i deilwra i'w ffermydd, i gaeau penodol neu hyd yn oed rannau o gaeau ac felly ei fod yn benodol iawn ac yn ymarferol.

### Busnesau

Soniodd rhai cyfranogwyr am gael gwybodaeth a chyngor gan y sector masnachol, yn enwedig cwmnïau hadau, ond mynegwyd pryder cyffredinol y gallai cyngor gan gwmnïau fod yn unochrog.

> **"[rydym] yn draddodiadol wedi cael llawer o wybodaeth gan y sector masnachol, ond yna, weithiau rwy'n pryderu ychydig... Rwy'n credu bod yn rhaid i ni edrych nawr ar gwtogi cymaint ag y gallwn ar fewnbynnau allanol... ond yr her yw cael gwybodaeth am wneud hynny sydd heb fudd masnachol iddi".**
> Cyfranogwr 22

Mae hyn yn pwysleisio un brif adborth a gafwyd gan y cyfranogwyr, sef eu bod yn hapus i gael gwybodaeth a chyngor o amrywiaeth o ffynonellau ond eu bod yn gwerthfawrogi i hynny fod yn ddiduedd ac yn seiliedig ar berthynas ddibynadwy a pharhaus.

> **"Yr hyn fyddwn i'n ei ddweud fyddai annibyniaeth, a pharch, mewn geiriau eraill rydych chi'n dod i adnabod y sawl sy'n rhoi cyngor i chi, boed yn gyngor masnachol neu'n annibynnol. Os ydych chi'n gweithio gyda rhywun am gryn dipyn ac wedi canfod bod y cyngor a gawsoch yn onest ac wedi gwneud gwahaniaeth, yna byddwch chi'n ffyddlon i'r unigolyn neu gwmni hwnnw".**
> Cyfranogwr 19

## Sut y gellir cefnogi ffermwyr yn well â gwybodaeth a chyngor?

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr sut y gellid eu cefnogi'n well i ddeall eu priddoedd ac ymarfer rheoli pridd cynaliadwy. Y prif feysydd a amlygwyd oedd cynyddu gwybodaeth am briddoedd Cymru drwy ymchwilio a monitro yn ogystal â chynnig hyfforddiant a chymorth penodol i ffermwyr i'w galluogi i gynnal dadansoddiad pridd a rhoi unrhyw ddata a gasglwyd ar waith.

### Ymchwil a monitro

Soniodd llawer o ffermwyr y gweithdai fod angen mwy o ymchwil a monitro pridd, a hynny ar raddfa genedlaethol a lleol. Teimlai rhai o'r cyfranogwyr fod diffyg ymchwil, monitro a mapio ar hyn o bryd yn seiliedig ar gyd-destun Cymru, a bod angen mynd i'r afael â hyn i ddarparu gwybodaeth a chyngor sy'n berthnasol ac yn ddefnyddiol i ffermwyr Cymru. Yn achos ymchwil academaidd, teimlai rhai cyfranogwyr y dylid rhoi cyhoeddusrwydd ehangach i hwn a'i wneud yn hygyrch i ffermwyr a rheolwyr tir.

> **"Mae'n rhaid cael ymchwil sylfaenol ar ffermydd yng Nghymru, un sy'n deall yr hinsawdd yng Nghymru, yn deall y patrymau ffermio a'r ffermio cymysg sydd gyda ni. Os nad oes gennych chi'r mannau ... hynny, yna bydd y cyngor a gawn yn ddiffygiol".**
> Cyfranogwr 19

Cyfeiriodd rhai cyfranogwyr at yr angen i fonitro pridd yn y tymor hir ar raddfa leol i olrhain tueddiadau a newidiadau ar lefel fferm dros amser.

> **"Rwy'n credu mewn gwirionedd y dylem geisio ymrwymo am y tymor hir. Felly, os bydd deunydd organig yn cynyddu, yna profi dro ar ôl tro o bosib yr un caeau yn yr un ardaloedd a thros gyfnod o 5 mlynedd a gweld sut mae'r newidiadau'n digwydd mewn manylion penodol yn hytrach nag yn gyffredinol".**
> Cyfranogwr 14
>
> **"Dw i'n meddwl bod llawer gormod o brosiectau wedi eu gwneud ar sail blwyddyn yn hytrach na phum mlynedd... nid oes dyfnder iddo. Rhaid cael pedair neu bum mlynedd i gael popeth i mewn i'r pot".**
> Cyfranogwr 12

### Hyfforddiant a chymorth

Mynegodd llawer o'r cyfranogwyr awydd am gymorth ariannol ar gyfer costau ac offer i ddadansoddi a monitro pridd. Cafwyd nifer o awgrymiadau ar gyfer datblygu apiau neu atebion technolegol eraill i symleiddio a chynyddu mynediad at ddadansoddiad pridd i ffermwyr, dosbarthu offer ar gyfer dadansoddi pridd, a darparu cyllid ar gyfer profion mwy costus fel dadansoddi carbon pridd.

> **"Os oes cynllun i gynnal a datblygu monitro pridd yna dylai'r llywodraeth helpu neu gynorthwyo ffermydd i gael dadansoddiad pridd manwl".**
> Cyfranogwr 20
>
> **"Dw i'n meddwl bod angen rhywfaint o fuddsoddiad arnom mewn rhyw dechnoleg i'n helpu ni i gael sylfaen llinell eang ac i'n helpu ni i fonitro... "**
> Cyfranogwr 25

Dywedodd llawer o'r ffermwyr eu bod wedi cael anawsterau wrth ddehongli data o ddadansoddi pridd a'u bod am gael cymorth gyda hyn i'w galluogi i drosi data yn ymarfer. Mynegodd ffermwyr awydd i ddata fod ar gael mewn fformatau mwy hygyrch, a dull mwy amserol, er mwyn iddo fod mor ddefnyddiol â phosibl. Dywedodd y cyfranogwyr yn benodol fod meincnodi'n ddefnyddiol i'w galluogi i gymharu eu priddoedd â ffermydd eraill a/neu â llinell sylfaen ddelfrydol. Tynnwyd sylw hefyd at hyfforddiant mewn gwyddor pridd fel rhywbeth a allai alluogi ffermwyr i ddehongli a defnyddio data yn annibynnol.

> **"Credaf mai'r hyn fyddai'n bwysig i mi, pe bai gofyn i ni fonitro ein priddoedd – gwych – ond hoffwn ddeall beth yw canlyniadau unrhyw brofion, ac rwy'n meddwl tybed pwy sy'n mynd i roi'r wybodaeth honno mewn ffordd y gallaf ei deall a gweithredu arni. Felly mae hynny'n ymddangos yn bwysig iawn".**
> Cyfranogwr 23
>
> **"Dw i'n trio asesu ymhle mae [fy mhriddoedd i] o fewn yr ystod lle mae angen iddyn nhw fod. Rwy'n gwybod bod y pH yn iawn. Rwyf wedi cael cymarebau neu lefelau nitrogen carbon, ond nid wyf yn dda iawn am ddehongli'r hyn y mae hynny'n ei olygu. Mae'n anodd. Dwi ddim yn credu bod fy mhriddoedd yn arbennig o wael, ond dwi ddim yn gwybod i ba raddau dwi dan feincnod neu dros feincnod".**
> Cyfranogwr 11

Dywedodd rhai ffermwyr y bydden nhw'n elwa fwyaf ar arddangosiadau ymarferol o reoli pridd cynaliadwy ac atebion i heriau cysylltiedig â phridd trwy ymweliadau fferm a mynediad at ffermydd arddangos. Roedd gallu gweld cyngor ar waith yn cael ei ystyried yn arbennig o werthfawr o'i gymharu â chyngor haniaethol.

**"Rwy'n credu mai'r hyn sy'n wirioneddol bwysig yw tystiolaeth amlwg o'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio... Felly, rwy'n credu y byddai'n werthfawr iawn cael mwy o ffermydd arddangos... y gall ffermwyr wedyn ymweld â nhw a dysgu oddi wrthyn nhw, achos dwi'n meddwl ein bod i gyd yn derbyn llawer mwy pan allwn ni ei weld ar waith".**
Cyfranogwr 18

## Adborth uniongyrchol ar y Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol

Rhannwyd y DPPA drafft gyda'r cyfranogwyr yn ystod cyflwyniad ar ddechrau'r gweithdai a gofynnwyd i'r ffermwyr a oedd ganddynt unrhyw adborth uniongyrchol ar y datganiad.

Roedd y rhan fwyaf o'r ffermwyr dan sylw yn cefnogi datblygu Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol Llywodraeth Cymru yn gyffredinol, a nododd rhai cyfranogwyr fod yr asesiad o gyflwr priddoedd Cymru a'r amcanion a nodwyd yn cydgordio â'u profiad ar eu ffermydd.

**"Dw i wrth fy modd bod Llywodraeth Cymru yn ystyried rhoi llawer mwy o amlygrwydd a sylw i bridd".**
Cyfranogwr 23

**"Mae wedi fy nghalonogi dipyn oherwydd mae'r cyfan eisoes yn bositif, mae'n debyg, ac mae'n siŵr mai'r hyn a wyddom yn barod ydyw".**
Cyfranogwr 11

Yn ogystal, cynigiwyd rhai awgrymiadau a meysydd i'w gwella gan y cyfranogwyr.

### Iaith gadarnhaol

Awgrymodd rhai ffermwyr y gellid newid geiriad Amcan 1 'Lleihau diraddiad pridd' er mwyn adlewyrchu'n well fod priddoedd Cymru mewn cyflwr cyffredinol dda ar hyn o bryd ac i gyflwyno uchelgais mwy cadarnhaol ar gyfer y dyfodol.

**"Amcan un, rwy'n tueddu i fod eisiau newid hwnnw o leihau diraddiad pridd naill ai i liniaru neu osgoi diraddiad pridd, oherwydd mae hynny'n awgrymu bod problem diraddiad pridd yng Nghymru, a dydw i ddim yn credu bod hynny'n wir".**
Cyfranogwr 1

### Fframio cyfannol

Mynegodd rhai cyfranogwyr y gellid pwysleisio natur gyfannol iechyd pridd yn gliriach yn y datganiad, am fod gwahanu materion yn amcanion a blaenoriaethau yn eu gwahanu'n artiffisial. Credai un ffermwr y gellid pwysleisio ymhellach fod newid hinsawdd yn bwysau cyffredinol cynyddol ar briddoedd.

**"Rwy'n credu bod yn rhaid edrych arno fel mwy o gyfanwaith yn hytrach na materion cywasgu a materion carbon unigol. Dwi'n meddwl bod angen edrych arno'n fwy fel un agwedd, hynny yw iechyd pridd da, yn hytrach nag agweddau unigol".**
Cyfranogwr 14

### Dŵr

Awgrymodd ambell ffermwr y dylid ymdrin yn fwy penodol â rheoli dŵr yn amcanion y datganiad.

**"Rwy'n synnu, o fewn yr amcanion allweddol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u nodi, nad yw gallu dal dŵr wedi'i gynnwys ar gyfer lliniaru llifogydd... Rwy'n synnu nad yw yno ymhlith yr amcanion".**
Cyfranogwr 25

### Integreiddio polisi

Nododd rhai cyfranogwyr fod angen i'r datganiad integreiddio â pholisïau a rheoliadau presennol eraill sy'n effeithio ar briddoedd a ffermwyr er mwyn osgoi gwrthdaro yn ymarferol.

> **"Os yw'r llywodraeth yn chwilio am bolisi cyffredinol, mae'n rhaid iddo gysylltu â phopeth arall y maen nhw'n ei gymhwyso i'r diwydiant. Felly, allan nhw ddim cymryd ag un llaw a gofyn i ni roi ar y llaw arall, dydy pethau ddim yn gweithio felly".**
> Cyfranogwr 1

Awgrymodd un ffermwr fod angen ystyried amserlenni polisi hefyd, er mwyn sicrhau bod unrhyw ddatganiad a lunnir yn dal yn berthnasol erbyn iddo gael ei gyhoeddi.

### Cyflawni

Roedd rhai cyfranogwyr yn pryderu ynghylch sut y byddai'r amcanion polisi yn cael eu cyflawni'n ymarferol, yn enwedig Amcan 3 ynghylch monitro pridd. Roedd y ffermwyr eisiau mwy o wybodaeth bendant am dargedau, amserlenni, ac yn y blaen. Nodwyd hefyd y gallai materion fel diffyg seilwaith presennol ar gyfer dadansoddi mwy o bridd fod yn rhwystr rhag cyflawni nodau'r datganiad.



# 05
# Casgliad

Mae canfyddiadau'r ymchwil hwn yn cyfrannu at well dealltwriaeth o brofiadau ac arferion presennol ffermwyr a rheolwyr tir o ran rheoli priddoedd amaethyddol yng Nghymru. Mae'r mewnwelediadau hyn yn cryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol terfynol, ac wedi cyfrannu'n uniongyrchol at ei lunio, fel y disgrifir yn nogfen Canfyddiadau ac Ymateb Ymgysylltu â Rhanddeiliaid y DPPA[10].

### Cyflwr pridd a diraddio

Dengys yr ymchwil fod mwyafrif y ffermwyr a'r rheolwyr tir a holwyd yn profi eu priddoedd yn rheolaidd i fonitro eu cyflwr, ond eu bod yn ei chael yn haws asesu rhai priodweddau pridd (e.e. maetholion, cywasgu) nag eraill (e.e. carbon pridd, bioamrywiaeth pridd). Arweiniodd hyn weithiau at fylchau yn nealltwriaeth ffermwyr o'u priddoedd. Yn gyffredinol, roedd y cyfranogwyr yn credu bod eu priddoedd mewn cyflwr da, sy'n cyd-fynd â thystiolaeth ar raddfa genedlaethol o'r Adolygiad o Dystiolaeth Pridd Cymru[11]. Awgrymodd rhai ffermwyr y gellid newid geiriad Amcan 1 yn y DPPA drafft 'Lleihau diraddiad pridd' i adlewyrchu'n well fod cyflwr priddoedd Cymru yn dda ar y cyfan. Serch hynny, roedd y rhan fwyaf o ffermwyr a holwyd wedi dod ar draws rhywfaint o ddiraddiad pridd ar raddfa fferm. Yn aml, roedd hyn yn cael ei ystyried yn ganlyniad anochel i ffactorau fel y tywydd, neu arferion ffermio penodol yr oedd ffermwyr yn eu mabwysiadu neu'n eu parhau oherwydd pwysau ar fusnes y fferm. Yn y sefyllfaoedd hyn, roedd llawer o ffermwyr yn defnyddio strategaethau i leihau effeithiau negyddol arferion o'r fath ar briddoedd lle bo hynny'n bosibl.

Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi bod eu priddoedd yn bwysig i ecosystemau, i'w ffermydd ac i Gymru, gan fynegi barn sy'n cydredeg â nodau eang y DPPA i warchod, cynnal a gwella priddoedd amaethyddol i sicrhau cynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol. Roedd rhai o'r cyfranogwyr o'r farn bod iechyd a rheolaeth pridd yn gyfannol eu natur, yn hytrach nag elfennau hawdd eu gwahanu'n wahanol agweddau, ac roeddent am i hyn gael ei fynegi'n gliriach yn y datganiad, gan gynnwys elfennau fel rheoli dŵr a newid yn yr hinsawdd yn fwy penodol.

### Buddion 'rheoli pridd yn dda' a chymhellion ar ei gyfer'

Dywedodd y cyfranogwyr ffermio eu bod yn ymarfer nifer o agweddau ar "reoli pridd yn dda", gan gynnwys profi ac arsylwi rheolaidd, rheoli maetholion, rheoli pori da byw, gwella strwythur y pridd, a lleihau aflonyddwch ar bridd. Roeddent yn canolbwyntio'n bennaf ar fuddion economaidd a swyddogaethol yr arferion hyn ar gyfer busnes y fferm, a allai adlewyrchu'r pwysau uniongyrchol sydd ar ffermwyr i sicrhau bod ganddynt fusnes a bywoliaeth hyfyw. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn cydnabod amrywiaeth o fuddion i ecosystemau, natur a hinsawdd, a'r budd cymdeithasol sy'n deillio o adael etifeddiaeth i genedlaethau'r dyfodol. Cytunwyd yn helaeth y byddai cymhelliant ar gyfer buddion ecosystemau yn cefnogi ac yn annog ffermwyr ymhellach i reoli eu priddoedd yn gynaliadwy.

10 Dogfen Canfyddiadau ac Ymateb Ymgysylltu â Rhanddeiliaid y DPPA: y ddwy ddogfen ar gael drwy www.llyw.cymru/datganiad-polisi-pridd-amaethyddol
11 Adolygiad o Dystiolaeth Pridd Cymru: Adolygiad o dystiolaeth pridd Cymru | LLYW.CYMRU

### Heriau ac amcanion cysylltiedig â phridd

Roedd cysylltiad agos rhwng rhai o'r heriau a amlinellwyd gan gyfranogwyr ffermio a'r bygythiadau a'r heriau a amlygwyd yn y DPPA, gan gadarnhau eu perthnasedd i briddoedd Cymru a ffermwyr Cymru. Mae hyn yn arbennig o wir am gywasgu, a nodwyd gan lawer o ffermwyr yn her allweddol, ac effeithiau tywydd garw, sy'n gysylltiedig â bygythiad y newid yn yr hinsawdd sy'n dod i'r amlwg. Amlygodd y ffermwyr a holwyd eu bod yn pryderu am gynnal a gwella deunydd organig pridd a bioamrywiaeth pridd ond bod rhwystrau gwybodaeth yn her wrth geisio monitro a rheoli'r ffactorau hyn ar eu ffermydd. Roedd galw ymhlith y cyfranogwyr am gael gafael ar ddadansoddiadau pridd mwy cynhwysfawr, a chymorth i ddeall y rhain, i symud ymlaen ymhellach gyda'r blaenoriaethau hyn. Un her nodedig a godwyd gan ffermwyr y gweithdai nad oedd wedi cael sylw yn y DPPA drafft yw cynnal ffrwythlondeb pridd. Amlygodd adborth y ffermwyr hefyd y gall cydbwyso gwahanol flaenoriaethau a/neu swyddogaethau pridd fod yn her yn ymarferol (e.e., cynnal cynhyrchiant da byw wrth osgoi cywasgu).

### Rhannu gwybodaeth

Amlygodd y ffermwyr oedd yn cymryd rhan bwysigrwydd rhannu gwybodaeth er mwyn cefnogi rheoli pridd yn gynaliadwy. Dywedasant eu bod ar hyn o bryd yn cael gwybodaeth a chyngor am reoli pridd o rwydweithiau cymheiriaid, y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol, y llywodraeth a chyrff anllywodraethol, y byd academaidd, ymgynghorwyr a busnesau. Roedd y cyfranogwyr yn hapus i dynnu ar wybodaeth a chyngor o ystod o ffynonellau, ond roedd yn well ganddynt rannu profiad ymarferol a gwybodaeth a chyngor diduedd (e.e. heb fuddiannau masnachol breintiedig) o ffynonellau yr oedd ganddynt berthynas ddibynadwy a pharhaus â hwy.

### Gwybodaeth am briddoedd

Roedd y cyfranogwyr yn teimlo y gallent gael eu cefnogi'n well trwy gael mwy o wybodaeth am briddoedd Cymru o ymchwil pellach (yn enwedig ar raddfa hirdymor a graddfa fferm) a monitro, ond mynegodd sawl un bryder ynghylch sut y byddai monitro'n cael ei gyflawni'n ymarferol. Amlygwyd ganddynt y gallai materion fel diffyg seilwaith presennol ar gyfer mwy o ddadansoddi pridd fod yn rhwystrau rhag cyflawni'r amcan hwn. Roedd y cyfranogwyr hefyd am gael cymorth pellach i'w galluogi i ddadansoddi pridd, deall data cysylltiedig a'i roi ar waith, gan gynnwys cyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd mwy hygyrch ac ystyrlon i ffermwyr a rheolwyr tir.



## Atodiad 1

# Datganiad Polisi Pridd Drafft

### Yr Her – Mae pridd yn adnodd gwerthfawr, cyfyngedig, sydd dan fygythiad

Mae pridd yn adnodd gwerthfawr yn ecolegol ac yn economaidd sy'n cynnal bywyd ac yn darparu gwasanaethau ecosystem hanfodol i Gymru. Ymhlith y gwasanaethau hyn mae darparu bwyd a phren, rheoleiddio a phuro dŵr, a gwneud cyfraniadau pwysig at reoleiddio hinsawdd, bioamrywiaeth ac amddiffyn rhag trychinebau naturiol. Oherwydd ei broses ffurfio araf, ystyrir bod pridd yn adnodd cyfyngedig â phen draw iddo.

Mae priddoedd Cymru yn unigryw. Maent yn cynnwys mwy o garbon na'r rhan fwyaf o briddoedd yn Lloegr ac Ewrop. Y rhesymau am hyn yw'r amodau hinsoddol gwlyb, ardaloedd helaeth o systemau glaswelltir a reolir, a'r ehangder o briddoedd organig sy'n deillio o hynny (mawn a phridd organo-fwynol). Er bod rhai risgiau i briddoedd yn ganolig i isel ar hyn o bryd, mae eraill yn uwch, neu gallant ddigwydd mewn rhai ardaloedd, neu rhagwelir y byddant yn cynyddu. Mae'r bygythiadau hyn yn effeithio ar allu pridd i ddarparu'n effeithiol y gwasanaethau hanfodol y dibynnwn arnynt. Yn ogystal, mae disgwyl i newid yn yr hinsawdd, poblogaeth sy'n tyfu a gofynion defnydd tir sy'n newid gynyddu'r pwysau ar adnoddau pridd.

### Y weledigaeth

**Ein gweledigaeth yw priddoedd amaethyddol gwydn, sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol trwy ddefnydd a rheolaeth gynaliadwy.**



## Pam Datganiad Polisi Pridd?

Mae rheoli priddoedd amaethyddol yn uniongyrchol berthnasol i'r Bil Amaethyddiaeth sydd ar ddod a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yng Nghymru. Ystyrir priddoedd amaethyddol yn y Datganiad Polisi Pridd drafft hwn gan eu bod yn cynrychioli 90% o arwynebedd tir Cymru. Diffinnir priddoedd amaethyddol fel priddoedd dan reolaeth amaethyddol ar gyfer cnydau, glaswelltiroedd a chynefinoedd lled-naturiol. Bydd priddoedd eraill yn cael eu hystyried mewn diweddariadau yn y dyfodol o ddatganiad polisi pridd Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn 'gwreiddio ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn' (Mai 2021). Mae'r datganiad polisi pridd yn uniongyrchol berthnasol i fynd i'r afael â'r datganiadau cenedlaethol o Argyfyngau Hinsawdd (2019) a Natur (2021). Bydd polisi pridd y dyfodol yn cael ei fframio o fewn deddfau trosfwaol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016). Yn y rhain, hyrwyddir rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol (SMNR) i fynd i'r afael â'u dirywiad hirdymor, heb gyfaddawdu ar anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Ar hyn o bryd nid oes polisi pridd cyffredinol na rheoliad penodol ar gyfer gwarchod pridd yng Nghymru. Mae Cymru'n datblygu polisi amaethyddol pwrpasol ers i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Yn y cyd-destun hwn mae'n bryd datblygu datganiad polisi pridd ac mae'n bwysig gwneud hynny, yn sail i reoli priddoedd yn gynaliadwy yng Nghymru.

## Amcanion Cyffredinol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu adolygiad o dystiolaeth pridd a oedd yn dangos y statws presennol a'r bygythiadau a'r cyfleoedd sy'n wynebu priddoedd amaethyddol yng Nghymru yn y dyfodol. Nododd yr adolygiad tystiolaeth feysydd allweddol sy'n benodol i Gymru y mae angen mynd i'r afael â hwy, gan gynnwys bylchau mewn tystiolaeth, i gyflawni'r weledigaeth gyffredinol o ddefnyddio a rheoli priddoedd amaethyddol yn gynaliadwy yng Nghymru. Cynigir nifer o amcanion ar gyfer y datganiad polisi pridd o ganlyniadau'r adolygiad tystiolaeth pridd ymchwil. Bydd yr amcanion hyn yn cael eu mireinio wrth gael tystiolaeth ychwanegol drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid. Bydd yr ymgysylltu hwn â rhanddeiliaid yn cyd-gynhyrchu'r datganiad polisi drwy ddarparu ffynonellau ychwanegol o wybodaeth a thystiolaeth i sicrhau bod y datganiad yn addas i'r diben a'i fod yn weledigaeth a rennir ar gyfer polisi pridd yng Nghymru.

Er mwyn cynnal pridd amaethyddol a'i wasanaethau, cynigir yr amcanion drafft cyffredinol canlynol:

**Cynnal a gwella'r adnodd pridd, swyddogaethau a gwasanaethau pridd drwy:**

- **Leihau diraddiad pridd**
- **Cyfnewid gwybodaeth am werth a bregusrwydd priddoedd**
- **Cynnal a datblygu gwaith monitro a modelu pridd**

## Amcan 1: Lleihau diraddiad pridd

**Her**

- Sicrhau bod pridd yn cynnig cydnerthedd yng Nghymru yn y dyfodol drwy gynnal a gwella'r swyddogaethau a'r gwasanaethau a geir o bridd.
- Sicrhau nad yw effeithiau newid defnydd tir yn y dyfodol a newid yn yr hinsawdd yn cynyddu diraddio pridd.

Mae diraddio pridd yn effeithio ar allu pridd i ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau lluosog, gan gynnwys cynhyrchu bwyd, ansawdd dŵr, darparu cynefinoedd a rheoleiddio hinsawdd.

Nodir y meysydd ffocws canlynol i leihau diraddiad pridd amaethyddol yng Nghymru er mwyn cyflawni swyddogaethau a gwasanaethau pridd yn y pen draw:

### Amcan 1a Cynnal a gwella deunydd organig pridd

**Her**

- Dylid cynnal y storau presennol o ddeunydd organig pridd, a'u cynyddu lle bo hynny'n briodol, trwy reoli pridd yn effeithiol.

Yng Nghymru, mae lefelau deunydd organig pridd yn nodweddiadol uchel oherwydd graddau helaeth o bridd organig bras (mawn a phridd organo-fwynol) a thir a reolir o dan laswelltiroedd dwysedd isel. Mae angen ystyried yn ofalus wrth gynnig newid defnydd tir i sicrhau nad yw'n achosi colled deunydd organig pridd. Mae cynyddu'r storau deunydd organig lle maent wedi'u darwagio yn dwyn buddion lluosog i ffrwythlondeb pridd, bioamrywiaeth pridd, gallu pridd i gadw dŵr a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

### Amcan 1b Lleihau erydiad pridd

**Her**

- Mewn ardaloedd sydd â risg uchel o erydiad pridd, dylid mabwysiadu camau gweithredu ar raddfa leol i leihau risg erydu.

Mae'r rhan fwyaf o briddoedd Cymru o dan laswelltir parhaol, sy'n fuddiol i atal erydiad, os cânt eu rheoli'n briodol. Fodd bynnag, gall prosesau erydu fod yn lleol ac yn ddwys iawn, gan arwain at fannau problemus lle gellir colli pridd sylweddol, fel ardaloedd heb lawer o orchudd llystyfiant. Disgwylir i'r cynnydd a ragwelir mewn digwyddiadau tywydd eithafol o dan newid yn yr hinsawdd gynyddu risg erydiad pridd a thirlithriadau. Mae risg erydu yn fwy os bydd newidiadau defnydd tir a rheoli tir yn cynyddu ardaloedd risg uwch fel pridd moel ar dir âr.

### Amcan 1c Lleihau cywasgu pridd

**Her**

- Lleihau cywasgu pridd drwy ddefnyddio peiriannau priodol a rheoli math a hyd pori yn ystod amodau gwlyb risg uchel.

Mae llawer o briddoedd Cymru am y rhan fwyaf o'r flwyddyn yn wlyb yn bennaf oherwydd athreiddedd araf a glawiad uchel, neu ddŵr daear uchel. Wrth i risg cywasgu gynyddu gyda gwlybaniaeth pridd, mae pridd amaethyddol Cymru yn agored iawn i gywasgu. O ganlyniad, mae chwarter y glaswelltiroedd yng Nghymru yn agored i gywasgu o beiriannau trwm a da byw. Gellir ystyried bod cywasgu'n digwydd dros dro am fod modd ei leddfu trwy reolaeth. Mae pridd sydd mewn cyflwr strwythurol da yn amsugno gwrtaith yn fwy effeithlon, yn esgor ar well pwysau cnwd ac yn cynhyrchu llai o ddŵr ffo.

### Amcan 1d Meithrin bioamrywiaeth pridd

**Her**

- Cynyddu dealltwriaeth a lleihau colledion bioamrywiaeth pridd yng Nghymru.

Mae biota pridd yn gyfrifol am ryw chwarter y fioamrywiaeth fyd-eang ac yn cefnogi natur amlswyddogaethol ecosystemau tir i ailgylchu maetholion, cynhyrchu bwyd, storio carbon a chynnal cynefinoedd. Prin yw'r dystiolaeth am dueddiadau bioamrywiaeth pridd yng Nghymru, ond gall newidiadau ddigwydd oherwydd newidiadau defnydd tir, colli deunydd organig, tywydd eithafol a rheoli tir. Yn gyffredinol, mae bygythiad colli bioamrywiaeth pridd yn llai mewn systemau dwysedd isel o'u cymharu â rhai dwysedd uchel. Mae cynnydd digwyddiadau eithafol oherwydd y newid yn yr hinsawdd yn debygol o newid digonedd ac amrywiaeth organebau pridd, a'r rhyngweithio rhyngddynt a chyda phlanhigion.

### Amcan 2: Cyfnewid gwybodaeth am werth a bregusrwydd priddoedd

**Her**

- Gwella cyfnewid gwybodaeth yn effeithiol rhwng ffermwyr, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a gwyddonwyr er mwyn darparu'r wybodaeth orau bosibl ar gyfer yr atebion a'r cyfleoedd gorau posibl er mwyn rheoli priddoedd amaethyddol Cymru yn gynaliadwy.
- Gwreiddio tystiolaeth datblygu ac ymchwil mewn gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth.

Mae ffermwyr Cymru wedi rheoli'r rhan fwyaf o'r pridd yng Nghymru ers cenedlaethau ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u priddoedd lleol. Mae cyfnewid gwybodaeth am reoli pridd cynaliadwy yn effeithiol yn broses ddwy ffordd a fydd, drwy gydweithio, o fudd i ffermwyr, ymchwilwyr a'r amgylchedd ehangach.

### Amcan 3: Cynnal a datblygu gwaith monitro a modelu pridd

**Her**

- Gall ychwaneg o fonitro pridd ar raddfeydd lleol yn ogystal â chenedlaethol, ac mewn amser agos at amser real, ychwanegu manylion y tueddiadau presennol mewn priodweddau a swyddogaethau pridd i leihau diraddio pridd.
- Sicrhau bod monitro ar yr un raddfa ag ymyriadau rheoli pridd ar lefel fferm a bod canlyniadau'r data yn cael eu bwydo'n ôl i reolwyr tir i gefnogi penderfyniadau ffermio ar gyfer y canlyniadau gorau.

Mae tystiolaeth o ddata a modelu wedi rhoi gwybodaeth bwysig drwy gipolwg lefel genedlaethol ar sefyllfa bresennol adnoddau pridd yng Nghymru (e.e. tuedd sefydlog gyfredol yng nghynnwys deunydd organig pridd). Bydd data manylach yn rhoi gwybodaeth fwy penodol am faint, lleoliad a risgiau i ddeunydd organig pridd, erydiad, cywasgu a bioamrywiaeth pridd ym mhriddoedd Cymru. Mae pridd, defnydd tir a hinsawdd Cymru yn wahanol i'r rhan fwyaf o'r DU. Gall amrywiadau o ran rheoli pridd a thir ddigwydd ar raddfeydd lleol. Ar raddfa cae a fferm, gall gwahaniaethau mawr fod ym mhriodweddau pridd, a bydd hyn yn arwain yr ymateb canlyniadol i reoli pridd a phwysau eraill. Bydd integreiddio data newydd gyda data hanesyddol a newidynnau hinsoddol eraill i fodelu newidiadau mewn priddoedd yn y dyfodol yn rhoi'r dystiolaeth orau bosibl i lywio polisi pridd yn y dyfodol a rheolaeth gynaliadwy.

### Atodiad 2

# Y Gweithdy Peilot

## Canllaw i'r Gweithdy Peilot

| Rhan A: Strwythur gweithdai pellach | | |
|---|---|---|
| 1. | Beth yw'r amser gorau i ffermwyr fynychu gweithdai? | — Amser o'r dydd<br>— Dyddiau gorau<br>— Pryd fydden nhw'n debygol o fynychu ym mis Awst? |
| 2. | Faint o ffermwyr ydych chi'n meddwl a fyddai'n dda ar gyfer trafodaeth grŵp? | — 1-5<br>— 5+ |
| 3. | Ydych chi'n credu bod cymysgedd o fathau/arferion fferm yn well neu a hoffech drafod gyda ffermwyr o'r un math o fferm â chi? | — Ydych chi'n meddwl y byddai'n llesteirio eich gallu i siarad am bynciau pe bai gan y ffermwr fath gwahanol o fferm? |
| 4. | Am ba hyd ydych chi'n meddwl y dylai gweithdy bara? | — A yw dwy awr (gydag egwyl) yn iawn?<br>— A oes pwynt lle byddech chi'n colli diddordeb? |
| 5. | Faint o gyfranogiad cymedroli sy'n lefel dda? | — A fyddai'n well gennych drafodaeth rugl heb lawer o gyfranogiad cymedroli?<br>— A hoffech chi petai cymedrolwyr yn llywio'r sgwrs? |
| 6. | Beth fyddai'r fformat gorau ar gyfer gweithdy? | — A fyddai mwy o ryngweithio yn well?<br>— A fyddai'n well gennych drafodaeth dros gwestiwn neu dasgau?<br>— A fyddai cyflwyniad ac yna trafodaeth yn well neu drafod yn y canol? |

| Rhan A: Strwythur gweithdai pellach | | |
|---|---|---|
| 7. | A fyddai'n well gennych gwestiynau penagored neu gwestiynau caeedig? | — A yw cymysgedd yn well?<br>— A hoffech chi gael system bleidleisio neu holiadur?<br>— Pa mor aml yr hoffech drafod pwnc (a ddylid cael terfyn)? |
| 8. | Beth fyddech chi'n gobeithio ei gael allan o fynychu gweithdy polisi pridd? | — A ydych chi'n hapus i siarad am eich priddoedd chi eich hun neu ei gadw'n gyffredinol?<br>— A fyddai'n well gennych i bynciau fod yn fwy o ymarfer dysgu neu drafodaeth gyffredinol? |

| Rhan B: Pynciau Perthynol i'r Polisi Pridd | | |
|---|---|---|
| 9. | Pa bynciau fyddai gennych y diddordeb mwyaf mewn siarad amdanynt mewn perthynas â Phriddoedd a Pholisi Pridd? | — Cwestiwn Cyffredinol – (dim awgrymiadau i roi atebion diduedd). |
| 10. | Beth ydych chi'n meddwl yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â phroblemau/risgiau pridd gyda ffermwyr? | — A yw'n well rhoi rhestr o bynciau?<br>— A fyddai cymhorthion gweledol yn helpu i ennyn sgwrs? |
| 11. | Beth yw'r prif bwysau a'r heriau sy'n wynebu ffermwyr wrth reoli tir fferm? | — Ydych chi'n ymateb yn fwy negyddol neu gadarnhaol i bwysau/her X?<br>— A oes gennych chi'r gallu i ymateb i'r heriau hyn? |
| 12. | Yn eich barn chi, beth yw'r costau a/neu'r manteision ar gyfer gweithredu mesurau/arferion sy'n gwarchod eich priddoedd/eu cadw'n iach? | — A oes mwy o gostau na buddion?<br>— A ydy'r rhain yn fwy o gostau a buddion amlwg/cudd? |
| 13. | Ydych chi'n meddwl bod y rhan fwyaf o ffermwyr yn gweld cysylltiad rhwng eu cynnyrch fferm a rheoli pridd? | — Ym mha ffordd?<br>— A oes cysylltiadau uniongyrchol (petruster i gysylltu)? |

| Rhan B: Pynciau Perthynol i'r Polisi Pridd | | |
|---|---|---|
| 14. | Pa nodweddion sy'n gwneud 'ffermwr da' yn eich tyb chi? | — A yw priddoedd yn ffactor yn hyn?<br>— A yw ffermwyr yn cael eu cymell i fod yn ffermwyr da/ gwerthfawrogi eu priddoedd? |
| 15. | Pa bolisïau neu gymorth sydd eu hangen ar ffermwyr, yn eich barn chi, i annog ymddygiadau/arferion ffermio 'da'? | — Canolbwyntio ar briddoedd<br>— A ydych yn cael y cymhelliant/ cyfle o'r polisi presennol neu ble mae'n annigonol? |
| 16. | Ble mae ffermwyr yn cael y rhan fwyaf o'u cymorth/gwybodaeth gyfredol am arferion ffermio? | — Canolbwyntio ar briddoedd<br>— A yw'r wybodaeth/cyngor yn effeithio ar eich ymarfer presennol?<br>— Beth fyddai'n ei wneud yn fwy dylanwadol? |

**Diolch am gymryd rhan yn y gweithdy**

# Canfyddiadau'r Gweithdy Peilot

### Cyflwyniad

Cyflwyniadau – ffermwyr ac ADAS

Cefndir priddoedd Cymru – 90% amaethyddol, carbon uchel, cyflwr da. Mae LlC yn dymuno ymgysylltu â ffermwyr ar briddoedd i gynhyrchu polisi priddoedd trosfwaol.

Gwahoddiad i helpu i ddylunio'r ffordd rydym yn ymgysylltu â ffermwyr trwy ddulliau rhithwir. Gofynnir i 65 o ffermwyr gymryd rhan mewn gweithdai. Gallant ymuno â'r alwad eto os ydynt yn dymuno. Dwy ran i'r alwad – technegol ac ymarferol.

### Materion technegol

- Sut i atal diraddio priddoedd Cymru
- Sut i gyfathrebu â'r diwydiant
- Sut i fonitro a chynnal priddoedd

### Cwestiwn 1 – Pa bynciau yr hoffech glywed amdanynt fwyaf pe baech yn mynychu'r gweithdai hyn? A beth yw'r prif fygythiadau i briddoedd Cymru?

#### Bygythiadau

- **R – Gaeafu** stoc, sathru, dŵr ffo a sut i atgyweirio strwythur pridd? Yn enwedig os defnyddir hau â dril uniongyrchol a bod aredig yn cael ei annog.
- **R – Atafaelu carbon.** A ddylai hyn fod yn rhan o'r pwnc / datganiad sefyllfa? Dylai. Mwy o le i roi carbon i ffermydd glaswelltir/da byw nag ar gyfer unedau âr. Mae ffermwyr yn gweld hyn yn ffordd well o 'ychwanegu carbon' na thrwy blannu coed. Mae hyn yn dibynnu ar yr ardoll asesu carbon sy'n cael ei defnyddio a'u dealltwriaeth o sut mae carbon yn cael ei atafaelu a'i storio. Mae'r offeryn carbon sy'n cael ei ddefnyddio yn bwysig gan nad yw pob un yn mesur hyn ac mae rhai yn rhagdybio.
- **R – Dyfodol ffosffadau mewn priddoedd?** TMae wedi'i gloi yn dda os yw bioleg y pridd yn dda. Angen bod yn ofalus o ran faint sy'n cael ei gymhwyso mewn ardaloedd/systemau bregus. Ystyrir mai'r diwydiant dofednod yw'r broblem/tramgwyddwr. Dylai ffermwyr brofi eu priddoedd bob blwyddyn ac addasu. Bydd tynnu gan gnydau/da byw yn atal y cronni. Os yw bioleg y pridd yn dda, yna ni ddylai fod yn broblem.
- **C – A ddylem drafod hyn mewn gweithdai yn y dyfodol?** Dylem, ar gyfer y sectorau dofednod a llaeth yn benodol. Fodd bynnag, ystyrir bod Rheoliadau Llygredd yn fwy o broblem. Ystyrir mai bioleg pridd da yw'r ateb i ffermwyr cig eidion a defaid, ond mae angen i eraill ystyried colledion ffosffad.
- **Newid hinsawdd** – mwy o law y gaeaf a hafau sych. Bydd planhigion gwreiddiau dwfn ac ymdreiddiad yn bwysig. Angen gallu mesur a monitro deunydd organig yn strwythur y pridd i leihau risg.

### Cwestiwn 2 – Yn eich barn chi, beth yw'r rhwystrau/galluogwyr allweddol i gael priddoedd cynaliadwy yng Nghymru?

- **R –** Meddylfryd hanesyddol, systemau ffermio traddodiadol, meddylfryd angen cynhenid i aredig, bydd newidiadau polisi yn cael eu gosod.
- Mae plannu coed yn peri pryder – materion tenant landlord, mae mwy o bwysau ar dir cynhyrchiol os caiff cyfran ei phlannu â choed.
- Pori gosod yn erbyn pori cylchdro a gwreiddio dwfn glaswellt. Mae 80% o ffermwyr yn dal i bori gosod ac mae glaswellt yn cael ei wastraffu heb fwrw gwreiddiau dwfn.

### Cwestiwn 3 – Yn eich barn chi, beth yw budd polisi rheoli pridd cynaliadwy?

— **R –** Mwy o broffidioldeb – mae popeth yn gweithio'n iawn. Mae planhigion yn wydn i dywydd sych/tywydd gwlyb a newid yn yr hinsawdd. Mae deunydd organig yn cynyddu ac erydiad yn lleihau. Cyfle i storio mwy o garbon. Costau yn erbyn buddion i briddoedd cynaliadwy yn rhoi sefyllfa lle mae pawb ar ei ennill. Budd tymor hwy ond mae angen cyfleu buddion tymor hir cyfrif mwydod, gwreiddiau dwfn ac ati.

### Cwestiwn 4 – A yw ffermwyr yn teimlo pwysau cadwyni cyflenwi i gynhyrchu mwy o fwyd fesul ardal?

— **R –** Na ond mae pwysau ar gostau cynhyrchu ac mae angen cyfiawnhau/arddangos. Mae unigolion yn penderfynu ar eu sefyllfa eu hunain ac yn ymateb. Nid yw ffermwyr yn credu bod diogelwch bwyd yn broblem nawr ond efallai y bydd yn y dyfodol.

### Materion ymarferol

— Yr amser gorau? 11-2

— Pa mor hir? 3 awr ar y mwyaf. Os yw'n ymarferol gall fod yn hirach.

— Pa ddiwrnod? Nid dydd Llun ond heblaw am hyn, dylid hepgor diwrnodau marchnad a chyfnod silwair/cynhaeaf.

— Cyflwyniad – eisiau mewnbwn ymarferol i ffermio hefyd hyd yn oed os yn rhithwir. Dim gormod o wyddonwyr! Ddim yn rhy wyddonol.

— Nifer yn y gweithdy? Rhoi ffermwyr da byw gyda'i gilydd a ffermwyr dofednod/llaeth mewn gweithdy arall.

### Materion eraill

Yr angen i integreiddio tail organig heb aredig. Mae angen i ddiogelwch bwyd hefyd fod yn uwch ar Agenda LlC.



## Atodiad 3

# Canllawiau i'r Gweithdai

## Canllaw i'r Gweithdai – Llawn

### Cyflwyniad Datganiad Polisi Pridd (DPP) 2022 – 20 munud

1. Amlinellu amcanion a fformat y gweithdy (h.y. pa mor hir yw pob rhan a'r gofynion).

2. Amlinellu sut mae'r DPP yn cyd-fynd â fframweithiau polisi a rheoleiddio presennol ac arfaethedig, a fydd yn cyflawni amcanion. Sylwi ymhle mae polisi ategol yn dal i gael ei ddatblygu / mae cwmpas ar gyfer mecanweithiau cyflawni ychwanegol yn opsiwn.

3. Cyflwyniad i Ddatganiad Polisi Priddoedd, cyflwyno'r dystiolaeth ar briddoedd Cymru a chysylltu hyn â blaenoriaethau dilynol ar gyfer rheoli priddoedd.

### Nodiadau/Atgoffa gan Lywodraeth Cymru ar gyflwyniad

- Pwysleisio'r dull cydgynllunio sy'n cael ei gymryd a nodi ymdrechion blaenorol/eraill i ymgysylltu â ffermwyr fel hyn – a sut mae'n gweithio ochr yn ochr â'r gweithdy hwn.
- Mae eu hadborth wedi'i ddefnyddio, ac yn cael ei ddefnyddio. Rhoi enghreifftiau pendant yn y gweithdy e.e. heriau a godwyd yng nghydgynllun SFS 1. Bydd adborth cydgynllun 1 SFS a chydgynllun 2 cyfredol SFS yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â'u sylwadau yn y gweithdy hwn i lywio datganiad y polisi priddoedd a gwahanol fecanweithiau cyflenwi (h.y. SFS) i gyflawni canlyniadau polisi a ddymunir wedyn.
- Mae'r polisi yn y cam drafft ac mae angen eu help i'w ddylunio, dim ond gyda'u mewnbwn nhw y gellir ei gwblhau.
- Rydym am fod yn glir i ffermwyr sy'n cymryd rhan mai darlun ar raddfa genedlaethol yw'r adolygiad tystiolaeth. Rydym eisiau gwybod sut mae'r canfyddiadau'n cyd-fynd ar lefel leol, trwy eu profiadau eu hunain.
- Mae angen eu syniadau ar sut i oresgyn heriau o'r adolygiad tystiolaeth a'r heriau y maen nhw'n dod ar eu traws.
- Sicrhau digon o amser ar gyfer manylion y DPP y bydd ffermwyr wedyn yn ei drafod. Ystyried a oes angen pwysleisio rhai agweddau yn dibynnu ar fynychwyr y sector/gweithdy.

### Trafodaeth – 20 munud: Sut Mae Ffermwyr yn Deall ac yn Gwerthfawrogi Priddoedd

Cael mewnwelediad ar sut mae ffermwyr yn deall ac yn gwerthfawrogi priddoedd ac i ba raddau y mae eu safbwyntiau'n cyd-fynd â'r rhai a gyflwynir yn y datganiad.

| Rhif Cwestiwn | Cwestiwn trafod | Cwestiynau dilynol ac awgrymiadau<br>Mae'r rhain i'w defnyddio os nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y cwestiwn trafod cyffredinol |
|---|---|---|
| 1. | Sut mae eich pridd yn cymharu â'r dystiolaeth yr ydym newydd ei gweld yng nghyflwyniad y Datganiad Polisi Priddoedd?<br>Cwestiynau Cynorthwyol:<br>Erydiad pridd<br>Cywasgu<br>ac ati<br>(Iechyd Pridd – gallu cadw dŵr yn dda, gweithgarwch mwydod da, erydiad isel, lefelau NPK da) | 1. Pa mor iach yw'r pridd ar eich fferm?<br>2. Sut mae iechyd eich pridd yn cymharu â phriddoedd ar draws Cymru?<br>3. Pa ddulliau ydych chi'n eu defnyddio i asesu eich priddoedd a'u hiechyd?<br>a. Profion pridd<br>b. Iechyd anifeiliaid<br>4. Ydych chi wedi gweld unrhyw newidiadau yn eich fferm a all fod yn gysylltiedig â chyflwr y pridd?<br>a. Awgrym: (e.e. da byw, newid incwm ac ati) |
| 2. | A oes unrhyw heriau sy'n gysylltiedig â phridd y bu'n rhaid i chi fynd i'r afael â nhw yn eich ymarfer ffermio neu ar eich fferm | 1. Ydyn nhw'n dal i fod yn broblem?<br>2. A soniwyd am y materion hyn yng nghyflwyniad DPP Cymru? |

### Trafodaeth – 20 munud: Rheoli Pridd yn 'Dda'

| Rhif Cwestiwn | Cwestiwn trafod | Cwestiynau dilynol ac awgrymiadau |
|---|---|---|
| 3. | Gweithgaredd – I chi'r ffermwr, beth yw manteision priddoedd o ansawdd cynaliadwy?<br>Arolygon Timau – cwmwl geiriau.<br>Efallai y bydd gan yr ymatebwyr yr opsiwn i siarad neu ysgrifennu yn y sgwrs am bynciau i'w hychwanegu at y cwmwl geiriau. | 1. Beth yw ystyr rheoli priddoedd yn dda ar eich fferm chi?<br>2. Beth yw manteision rheoli pridd yn dda?<br>3. O'r hyn rydych chi wedi'i ddisgrifio fel 'rheoli pridd yn dda' a oes unrhyw agweddau sy'n bwysicach i'w hystyried nag eraill?<br>4. Oes yna rai pethau rydych chi'n eu gwneud i ofalu am y pridd sy'n gweithio'n well nag eraill, a pham? |

### Egwyl – 5 munud

1. Atgoffa i ddiffodd sain eu ffonau a diffodd camerâu ond i beidio â gadael yr alwad.

2. Disgrifio beth yw'r pynciau nesaf a bod cyflwyniad i ddod ar heriau a gwybodaeth allweddol.

### Cyflwyniad – 15 munud: Heriau

1. Amlinellu deunydd allweddol a meysydd sy'n ymwneud â phynciau pwysig (o'r rhag-beilot) o amgylch pridd/rheoli pridd a'r heriau sy'n gysylltiedig â hwy.

2. Galluogi trafodaeth ynghylch DPP Cymru a chysylltu â'r heriau.

Bydd y cyflwyniad yn dangos pynciau allweddol o ddiddordeb i ffermwyr a amlinellwyd gan y rhag-beilot ac yn eu trafod yn fyr mewn perthynas â heriau. Bydd y cyflwyniad yn newid yn dibynnu ar y sector i sicrhau bod modd uniaethu â'r heriau:

- cywasgu pridd
- erydiad pridd
- deunydd organig pridd
- cael strwythur pridd yn ôl yn gynt (atebion ymarferol)
- atafaelu carbon (gan ddefnyddio pecyn cymorth carbon fferm)
- gaeafu stoc yn yr awyr agored
- ymgorffori deunydd organig gyda gweithrediadau dim aredig/bas-droi
- gwahaniaethau o fewn sectorau h.y. ystyrir bod ffosffadau yn broblem yn y sectorau llaeth/moch/dofednod yn unig.

**Trafodaeth – 20 munud: Heriau**

| Rhif Cwestiwn | Cwestiwn trafod | Cwestiynau dilynol ac awgrymiadau |
|---|---|---|
| 4. | O’r heriau a gyflwynwyd, beth ydych chi’n meddwl sydd bwysicaf i chi? | 1. A oes unrhyw bynciau yr hoffech glywed mwy amdanynt?<br>2. A oes unrhyw heriau nad yw’r cyflwyniad yn eu trafod sy’n bwysig i chi? |
| 5. | Sut fyddech chi’n mynd i’r afael â’r heriau a gyflwynwyd i chi heddiw gan DPP Llywodraeth Cymru a’n cyflwyniadau? | 1. 1A oes gennych chi’r gallu i ymateb i’r heriau hyn?<br>2. A ydych chi’n gwneud unrhyw beth ar hyn o bryd i fynd i’r afael â’r heriau hyn? (Pwysleisiwch hyn fel pwynt cydgynllunio – beth maen nhw eisoes yn ei wneud/yn rhoi cynnig arno? Beth sy’n apelio atyn nhw?)<br>3. Beth allai newid meddylfryd ffermwyr eraill i aros yn bositif wrth fynd i’r afael â’r heriau hyn?<br>a. e.e., Cynllun Ffermio Cynaliadwy/ rheoleiddio/pwysau cymheiriaid a’r cyfryngau ac ati. |

**Trafodaeth – 20 munud: Cyfnewid Gwybodaeth**

| Rhif Cwestiwn | Cwestiynau/Gweithgaredd | Cwestiynau dilynol |
|---|---|---|
| 6. | O ble mae ffermwyr yn cael y rhan fwyaf o’u cyngor/gwybodaeth gyfredol am briddoedd?<br>Efallai y bydd gan yr ymatebwyr yr opsiwn i siarad neu ysgrifennu yn y sgwrs am bynciau i’w hychwanegu at y cwmwl geiriau. | 1. A ydy unrhyw ran o’r cyngor a gawsoch wedi effeithio ar eich ymarfer presennol?<br>2. Pa ffynonellau/dulliau gwybodaeth sy’n well gennych am gyngor ar bridd a pham?<br>3. Beth fyddai’n ei wneud yn fwy dylanwadol neu’n fwy perthnasol i chi? |
| 7. | Sut y gallech gael eich cefnogi’n well i ddeall iechyd eich pridd ac arferion ffermio da? | 1. Dolen i fecanweithiau polisi<br>a. Cynllun Ffermio Cynaliadwy<br>b. Cyswllt Ffermio<br>c. Unrhyw gymorth arall<br>2. A ydych yn cael y cymhelliant/cyfle o’r polisi presennol neu ble mae’n annigonol? |

## Canllaw i'r Gweithdai – Crynodeb

| Canllaw i'r Gweithdai | Amcanion | Amser |
|---|---|---|
| **Cyflwyniad 1** | 1. Amlinellu amcanion y gweithdy, Cydgynllun a fformat (h.y. pa mor hir yw pob adran a gofynion).<br>2. Amlinellu sut mae'r DPP yn cyd-fynd â fframweithiau polisi a rheoleiddio presennol ac arfaethedig, a fydd yn cyflawni amcanion. Sylwi ymhle mae polisi ategol yn dal i gael ei ddatblygu/cwmpas ar gyfer mecanweithiau cyflawni ychwanegol yn opsiwn.<br>3. Cyflwyniad i Ddatganiad Polisi Priddoedd, cyflwyno'r dystiolaeth ar briddoedd Cymru a chysylltu hyn â blaenoriaethau dilynol ar gyfer rheoli priddoedd. | 20 munud<br>12:00 – 12:20 |
| **Eu Gwybodaeth am Briddoedd** | 1. Dod i ddirnad sut mae ffermwyr yn deall ac yn gwerthfawrogi priddoedd, ac i ba raddau mae eu safbwyntiau'n cyd-fynd â'r rhai a gyflwynwyd yn y datganiad. | 20 munud<br>12:20 – 12:40 |
| **Rheoli Pridd yn 'Dda'** | 1. Deall beth yw 'ffermwr da' a'r manteision sy'n gysylltiedig o ran priddoedd.<br>2. Deall beth yw ystyr rheoli pridd yn dda ar ffermydd ac arferion presennol/arferion yn y dyfodol. | 20 munud<br>12:40 – 1:00 |
| **Egwyl** | | 5 munud<br>1:00 – 1:05 |

| Canllaw i'r Gweithdai | Amcanion | Amser |
|---|---|---|
| **Cyflwyniad 2** | 1. Amlinellu deunydd allweddol a meysydd sy'n ymwneud â phynciau pwysig yn ymwneud â rheoli pridd.<br>2. Galluogi trafodaeth ynghylch y pynciau a chysylltu â'r adran ganlynol. | 15 munud<br>1:15 – 1:20 |
| **Heriau** | 1. Beth mae ffermwyr yn ei weld fel yr heriau allweddol i reoli priddoedd cynaliadwy ar ffermydd yng Nghymru? | 20 munud<br>1:20 – 1:40 |
| **Cyfnewid Gwybodaeth** | 1. Deall o ble mae ffermwyr yn cael eu cyngor ar briddoedd a pha ffynonellau gwybodaeth sy'n dylanwadu ar sut maen nhw'n rheoli priddoedd.<br>2. Amlinellu sut y gellid cefnogi ffermwyr yn well gyda gwybodaeth. | 20 munud<br>1:40 – 2:00 |

## Atodiad 4

# Trosolwg o'r Cyfranogwyr

## Trosolwg

| Rhif y Gweithdy | Nifer y mynychwyr | Defaid | Cig Eidion | Llaeth | Âr | Garddwriaeth | Dofednod | Moch | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithdy 1 | 6 | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gweithdy 2 | 7 | 7 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gweithdy 3 | 5 | 4 | 3 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 |
| Gweithdy 4 | 6 | 4 | 3 | 1 | 3 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Gweithdy 5 | 7 | 6 | 5 | 2 | 1 | 2 | 2 | 0 | 2 |
| **Cyfanswm** | **31** | **26** | **21** | **5** | **6** | **4** | **4** | **2** | **4** |

Sylwer: Mae'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr sydd wedi mynychu'r gweithdai wedi dod o ffermydd cymysg. Rydym yn rhagdybio bod y categorïau hyn i gyd yn fentrau perthnasol ar fferm y cyfranogwyr gan nad yw'r data a ddarperir yn nodi prif fenter y ffermwyr.

## Math o fferm yn ôl canran

| Math o Fferm | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Defaid | 26 | 88.9% |
| Cig Eidion | 21 | 67.7% |
| Llaeth | 5 | 16.1% |
| Âr | 6 | 19.4% |
| Garddwriaeth | 4 | 12.9% |
| Dofednod | 4 | 16.1% |
| Moch | 2 | 6.5% |
| Arall | 4 | 12.9% |
| **Cyfanswm** | **31** | |

## Gweithdy 1

| Galwedigaeth | Defaid | Cig Eidion | Llaeth | Âr | Garddwriaeth | Dofednod | Moch | Arall | Maint y Fferm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffermwr a swyddog polisi | Ie | Ie | Na | Na | Na | Na | Na | Na | 50 i 99 ha (121-245 erw) |
| Ffermwr | Ie | Na | Na | Na | Na | Na | Na | Na | Llai na 25 hectar (60 erw) |
| Ffermwr | Ie | Ie | Na | Na | Na | Na | Na | Na | 50 i 99 ha (121-245 erw) |
| Ffermwr | Ie | Ie | Na | Na | Na | Na | Na | Na | 25 i 49 ha (61-120 erw) |
| Ffermwr | Ie | Ie | Na | Na | Na | Na | Na | Na | Llai na 25 hectar (60 erw) |
| Ffermwr | Na | Ie | Na | Na | Na | Na | Na | Na | 100 i 199 ha (246-490 erw) |
| **Cyfanswm** | **5** | **5** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **–** |

## Gweithdy 2

| Galwedigaeth | Defaid | Cig Eidion | Llaeth | Âr | Garddwriaeth | Dofednod | Moch | Arall | Maint y Fferm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffermwr | Ie | Ie | Na | Na | Na | Na | Na | Na | 25 i 49 ha (61-120 erw) |
| Ffermwr | Ie | Na | Na | Na | Na | Na | Na | Na | 25 i 49 ha (61-120 erw) |
| Business Development Manager | Ie | Ie | Na | Na | Na | Na | Na | Na | 50 i 99 ha (121-245 erw) |
| Ffermwr | Ie | Ie | Na | Na | Na | Na | Na | Na | 50 i 99 ha (121-245 erw) |
| Ffermwr | Ie | Na | Na | Na | Na | Na | Na | Na | 100 i 199 ha (246-490 erw) |
| Ffermwr | Ie | Ie | Na | Na | Na | Na | Na | Na | 50 i 99 ha (121-245 erw) |
| Ffermwr | Ie | Ie | Na | Na | Na | Na | Na | Na | 50 i 99 ha (121-245 erw) |
| **Cyfanswm** | **7** | **5** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **–** |

## Gweithdy 3

| Galwedigaeth | Defaid | Cig Eidion | Llaeth | Âr | Garddwriaeth | Dofednod | Moch | Arall | Maint y Fferm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffermwr | Ie | Na | Ie | Ie | Na | Na | Na | Na | 100 i 199 ha (246-490 erw) |
| Ffermwr | Ie | Ie | Na | Ie | Ie | Na | Ie | Na | 200+ ha (491+ erw) |
| Ffermwr ac yn gweithio i CNC | Ie | Ie | Ie | Na | Na | Ie | Na | Na | 25 i 49 ha (61-120 erw) |
| Ffermwr | Na | Ie | Na | Na | Ie | Ie | Ie | Na | 25 i 49 ha (61-120 erw) |
| Partner ffermio ac ymgynghorydd amaethyddol | Ie | Na | Na | Na | Na | Na | Na | Na | 100 i 199 ha (246-490 erw) |
| **Cyfanswm** | **4** | **3** | **2** | **2** | **2** | **2** | **2** | **0** | **–** |

## Gweithdy 4

| Galwedigaeth | Defaid | Cig Eidion | Llaeth | Âr | Garddwriaeth | Dofednod | Moch | Arall | Maint y Fferm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffermwr | Ie | Ie | Na | Na | Na | Na | Na | Na | 200+ ha (491+ erw) |
| Ffermwr | Na | Na | Ie | Na | Na | Na | Na | Na | 100 i 199 ha (246-490 erw) |
| Ffermwr | Na | Na | Na | Ie | Na | Na | Na | Na | 200+ ha (491+ erw) |
| Ffermwr | Ie | Ie | Na | Ie | Na | Na | Na | Na | 200+ ha (491+ erw) |
| Ffermwr | Ie | Na | Na | Na | Na | Na | Na | edrych i arallgyfeirio i arddwrddiaeth' | 50 i 99 ha (121-245 erw) |
| Ffermwr | Ie | Ie | Na | Ie | Na | Na | Na | eiddo | 200+ ha (491+ erw) |
| **Cyfanswm** | **4** | **3** | **1** | **3** | **0** | **0** | **0** | **2** | **–** |

## Gweithdy 5

| Galwedigaeth | Defaid | Cig Eidion | Llaeth | Âr | Garddwriaeth | Dofednod | Moch | Arall | Maint y Fferm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffermwr | Na | Na | Ie | Na | Na | Na | Na | Na | 100 i 199 ha (246-490 erw) |
| Ffermwr | Ie | Ie | Na | Na | Ie | Na | Na | Perllannau | 200+ ha (491+ erw) |
| Ffermwr | Ie | Ie | Na | Na | Na | Ie | Na | Na | 100 i 199 ha (246-490 erw) |
| Ffermwr | Ie | Ie | Ie | Na | Ie | Ie | Na | Na | 25 i 49 ha (61-120 erw) |
| Ffermwr | Ie | Ie | Na | Na | Na | Na | Na | Na | 100 i 199 ha (246-490 erw) |
| Ffermwr | Ie | Na | Na | Na | Na | Na | Na | Na | 50 i 99 ha (121-245 erw) |
| Ffermwr | Ie | Ie | Na | Ie | Na | Na | Na | grŵp diddordeb dan arweiniad y gymuned a thwristiaeth | 100 i 199 ha (246-490 erw) |
| **Cyfanswm** | **6** | **5** | **2** | **1** | **2** | **2** | **0** | **2** | **–** |

## Atodiad 5

# Dogfennau a anfonwyd at y ffermwyr ar ôl y gweithdy dilynol

## Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol Llywodraeth Cymru 2023

Mae priddoedd amaethyddol yn adnodd sy'n werthfawr i ecoleg, economi a chymdeithas Cymru. Fe'u hystyrir yn adnodd cyfyngedig, oherwydd cyfraddau ffurfio araf. Mae'r datganiad polisi pridd amaethyddol hwn yn nodi'r weledigaeth ar gyfer gwarchod priddoedd a'u rheoli'n gynaliadwy yng Nghymru ac mae'n cydnabod y swyddogaethau a'r gwasanaethau hanfodol y mae priddoedd yn eu darparu:

- darparu'r sail ar gyfer bwyd, ynni sy'n deillio o fiomas, a deunyddiau crai
- rheoleiddio cylchoedd amgylcheddol maetholion a charbon
- darparu cynefinoedd gwerthfawr a chynnal bioamrywiaeth
- rheoleiddio llif ac ansawdd dŵr
- rheoleiddio'r hinsawdd a lliniaru rhai effeithiau newid yn yr hinsawdd
- diogelu treftadaeth ddiwylliannol ac archeolegol
- arparu llwyfan ar gyfer seilwaith

**Diffinnir priddoedd amaethyddol fel priddoedd dan reolaeth amaethyddol ar gyfer cnydau, glaswelltiroedd a chynefinoedd lled-naturiol.**

Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys pob glaswelltir; cynefinoedd lled-naturiol (gan gynnwys pridd mawn sy'n cael ei adfer a mawn sy'n destun amaethyddiaeth ddwys); cnydau âr, bio-ynni a phorthiant; garddwriaeth; amaeth-goedwigaeth; padogau; pob safle dynodedig er cadwraeth natur (e.e. SoDdGA, ACA) o dan reolaeth amaethyddol; a phob ardal sy'n destun cytundeb cynllun amaeth-amgylcheddol.



**Roedd ffermwyr am gydnabod bod priddoedd Cymru mewn cyflwr da ar y cyfan ac nid oedd hyn yn cael ei gydnabod yn y drafft cychwynnol. Rydym hefyd wedi newid yr iaith drwy gydol y datganiad i gael ei fframio'n fwy cadarnhaol, gan newid geiriau megis diraddio, cwtogi a lleihau i'r geiriau gwarchod, gwella ac annog.**

## Pam mae angen gwarchod priddoedd Cymru?

Mae priddoedd amaethyddol Cymru yn unigryw ac mewn cyflwr da, ar y cyfan. Yn sgil ardaloedd mawr o laswelltir a reolir ac amodau hinsoddol gwlyb (a gynhyrchodd ardaloedd mawr o fawn a phridd organo-fwynol), cafwyd mwy o gynnwys carbon na'r rhan fwyaf o briddoedd yn Lloegr ac Ewrop. Mae pridd yn newid yn araf ac efallai na welir effeithiau ein gweithredoedd heddiw am flynyddoedd lawer. Mae yna hefyd lawer nad ydym yn ei wybod am bridd o hyd. Er mwyn atal diraddio ein priddoedd yn y dyfodol, mae angen i ni ddatblygu gwybodaeth a dechrau gweithredu nawr i feithrin gwydnwch.

Nododd yr adolygiad tystiolaeth pridd nifer o fygythiadau cyfredol i allu pridd i ddarparu'n effeithiol y gwasanaethau y dibynnwn arnynt ac eraill sy'n dod i'r amlwg. Ymhlith y bygythiadau presennol mae colli deunydd organig pridd, erydiad pridd, colli strwythur pridd a chywasgu, llai o fioamrywiaeth pridd a chylchredau maetholion pridd anghytbwys. Y bygythiadau allweddol sy'n dod i'r amlwg yw'r newid yn yr hinsawdd a newid rheolaeth amaethyddol, sy'n gydgysylltiedig, a disgwylir iddynt gynyddu'r pwysau ar briddoedd ymhellach.

**Dywedodd llawer o ffermwyr eu bod yn cael mwy o dywydd garw a oedd yn effeithio ar briddoedd a'u gallu i'w rheoli'n gynaliadwy, a/neu amlygwyd y gellid pwysleisio ymhellach y gallai newid yn yr hinsawdd fod yn bwysau cyffredinol cynyddol ar briddoedd. Mae'r dystiolaeth yn dangos y bydd digwyddiadau tywydd eithafol/niweidiol yn dod yn amlach oherwydd newid yn yr hinsawdd. Er mwyn mynd i'r afael â'r adborth a'r dystiolaeth hon, rydym wedi tynnu sylw at newid yn yr hinsawdd fel bygythiad allweddol i briddoedd amaethyddol yng Nghymru ac wedi mynd i'r afael ag ef yn y meysydd blaenoriaeth yn amcan tri.**

### Newid Hinsawdd

Mae'r hinsawdd yn dylanwadu'n uniongyrchol ar brosesau ffurfio pridd ac mae'n effeithio ar briodweddau a swyddogaethau pridd. Mae newid yn yr hinsawdd eisoes yn effeithio ar briddoedd drwy ddigwyddiadau eithafol fel llifogydd, tanau a sychder, a rhagwelir y bydd yn cael mwy o effaith ar ymarferoldeb a photensial amaethyddol priddoedd Cymru yn y dyfodol. Disgwylir i newid hinsawdd effeithio ar wlybaniaeth pridd, deunydd organig pridd a'i stociau carbon, strwythur a swyddogaeth cymunedau biolegol pridd, a chylchredau maetholion. Disgwylir i'r rhain sbarduno newidiadau rheolaeth amaethyddol (e.e. cynyddu hyfywedd ffermio âr). Dylai camau rheoli priddoedd anelu at warchod a chynnal swyddogaeth priddoedd o reoleiddio'r hinsawdd a gwella gallu priddoedd i addasu i bwysau o dan hinsawdd sy'n newid.

### Newid Rheolaeth Amaethyddol

Mae newid rheolaeth amaethyddol yn cyfeirio at newidiadau defnydd pridd a rheoli pridd o fewn amaethyddiaeth; er enghraifft, newid o ddefnyddiau pridd llai dwys (e.e. glaswelltir lled-naturiol) i ddefnyddiau pridd mwy dwys (e.e. âr), neu newid arferion fel trin tir neu ddefnyddio gwrtaith. Dengys y dystiolaeth fod newidiadau tuag at ddwysáu amaethyddol yn arwain at effeithiau negyddol ar briodweddau a swyddogaethau pridd sylfaenol, er enghraifft storio carbon. Yn ogystal, gall newidiadau rheoli ddylanwadu ar yr hinsawdd, e.e. trwy gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr.
Mae angen ystyried yn ofalus wrth gynnig newid rheolaeth amaethyddol i sicrhau nad amharir ar swyddogaethau'r pridd a bod priddoedd yn cynnal eu gwydnwch.



# Beth yw ein gweledigaeth ar gyfer priddoedd amaethyddol?

| | |
|---|---|
| Gweledigaeth | Priddoedd amaethyddol gwydn sy'n darparu swyddogaethau a gwasanaethau i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol, byd natur, a hinsawdd drwy ddefnydd a rheolaeth gynaliadwy. |

**Tynnodd ffermwyr sylw at yr angen i'r datganiad gael ei integreiddio â pholisïau a rheoliadau presennol eraill. Ychwanegwyd y diagram hwn i fframio sut mae'r DPPA yn cyd-fynd â'r tirlun polisi presennol. Byddwn hefyd yn cyhoeddi dogfen ar wahân gyda gwybodaeth fanylach.**

## Pam Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol?

Ar hyn o bryd nid oes polisi pridd cyffredinol na rheoliad penodol ar gyfer gwarchod pridd yng Nghymru. Mae polisïau ar waith sy'n berthnasol i briddoedd, ond maent wedi'u lledu ar draws llawer o feysydd polisi, ac ar y cyfan fe'u cyfyngir i swyddogaethau neu effeithiau penodol priddoedd. Mae hyn yn cyfyngu ar eu heffeithiolrwydd cyfunol i warchod priddoedd. Yn y datganiad polisi pridd hwn, ceir gweledigaeth gydlynol ac uchelgeisiau eang ar gyfer rheoli pridd yn gynaliadwy er mwyn llenwi'r bwlch hwn. Nid yw'n nodi mesurau polisi newydd nac yn cynnwys canllawiau manwl i ymarferwyr, ond bydd yn helpu i lywio ac arwain polisi'r dyfodol.


Mae'r datganiad polisi pridd hwn yn canolbwyntio ar briddoedd amaethyddol gan eu bod yn cynrychioli 90% o arwynebedd tir Cymru, ac mae eu rheolaeth yn uniongyrchol berthnasol i Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yng Nghymru. Yr uchelgais yw adolygu'r datganiad hwn o bryd i'w gilydd ac ystyried mathau eraill o bridd i'w cynnwys mewn diweddariadau yn y dyfodol.

**I gael gwybodaeth fanylach trowch at Ymateb Polisi'r DPPA.**

**Y Tirlun Polisi Presennol**

Mae Llywodraeth Cymru yn 'gwreiddio ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn'. Mae'r datganiad polisi pridd yn uniongyrchol berthnasol i fynd i'r afael â'r datganiadau cenedlaethol o Argyfyngau Hinsawdd (2019) a Natur (2021). Fframiwyd y datganiad o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016). Yn y rhain, hyrwyddir rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol (SMNR) i fynd i'r afael â'u dirywiad hirdymor, heb gyfaddawdu ar anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

**Ffigur 1:**




I gael gwybodaeth fanylach am y cyd-destun polisi, gweler Ffigur Tirwedd Polisi ASPS sydd ar gael ar www.llyw.cymru/datganiad-polisi-pridd-amaethyddol.

**Roedd nifer o'r cyfranogwyr yn pryderu sut y byddai'r amcanion polisi yn cael eu cyflawni'n ymarferol. Roedd ffermwyr am gael gwybodaeth fwy pendant am dargedau, amserlenni ac yn y blaen. Aethom i'r afael â'r adborth hwn drwy dynnu sylw at bwrpas y datganiad, fel uchelgais i Lywodraeth Cymru i'w ddefnyddio i lywio polisi'r dyfodol. O ganlyniad i'r adborth, datblygwyd dogfennau ategol ychwanegol a byddant yn cael eu cyhoeddi gyda'r datganiad i fynd i'r afael â'r gwaith cyflawni.**

# Sut byddwn ni'n symud tuag at ein gweledigaeth?

**Gweledigaeth**

**Priddoedd amaethyddol gwydn sy'n darparu swyddogaethau a gwasanaethau i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol, byd natur, a hinsawdd drwy ddefnydd a rheolaeth gynaliadwy.**


**Amcanion**

- Cynyddu gwybodaeth am briddoedd Cymru
- Annog rhannu gwybodaeth am briddoedd
- Gwarchod, cynnal a gwella swyddogaethau a gwasanaethau pridd

Datblygwyd y datganiad polisi pridd trwy adolygu tystiolaeth helaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Datblygwyd y datganiad polisi pridd trwy adolygu tystiolaeth helaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid www.llyw.cymru/datganiad-polisi-pridd-amaethyddol.

Mae'r amcanion a nodir yn y datganiad hwn yn rhyng-gysylltiedig. Mae pob amcan yn bwysig ar gyfer amddiffyn rhag bygythiadau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg a chyflawni priddoedd amaethyddol gwydn ar gyfer cenedlaethau, natur a hinsawdd y presennol a'r dyfodol.

**Ffigur 2:**




**Dywedodd ffermwyr y gellid pwysleisio natur gyfannol iechyd pridd yn gliriach yn y datganiad, am fod gwahanu'r materion yn amcanion a blaenoriaethau yn eu gwahanu'n artiffisial. Yma rydym yn pwysleisio bod yr holl amcanion a blaenoriaethau a nodwyd yn rhyng-gysylltiedig ac yn bwysig wrth gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer priddoedd iach Cymru.**

**Fe wnaeth yr ymgysylltu â ffermwyr lywio'r amcan hwn drwy amlygu bod angen i waith ymchwil a monitro fod yn waith tymor hir ac ar raddfa fferm. Pwysleisiwyd hefyd yr angen am ddata a gyflwynir mewn ffyrdd hygyrch ac ystyrlon iddynt eu defnyddio.**

## Amcan 1: Cynyddu gwybodaeth am briddoedd Cymru

**Hyrwyddo monitro pridd, ar raddfeydd lleol yn ogystal â chenedlaethol, er mwyn gwella dealltwriaeth o dueddiadau, bygythiadau a chyfleoedd i gyflawni priddoedd gwydn.**

Mae pridd, defnydd tir a hinsawdd Cymru yn wahanol i'r rhan fwyaf o'r DU. Mae'r data presennol wedi rhoi cipolwg cenedlaethol pwysig ar sefyllfa bresennol priddoedd Cymru (e.e. tuedd sefydlog mewn cynnwys deunydd organig pridd). Byddai casglu gwybodaeth fwy manwl a hirdymor am briddoedd Cymru yn helpu i olrhain tueddiadau, targedu ymyriadau, asesu effeithiolrwydd polisïau ac arferion ar gyfer gwarchod priddoedd, a llunio dulliau gweithredu yn y dyfodol. Bydd llenwi'r bylchau mewn gwybodaeth hefyd yn bwysig yng ngoleuni'r heriau newydd y gallai priddoedd eu hwynebu o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.

Amlygodd ein gwaith ymgysylltu â ffermwyr bwysigrwydd casglu data ar raddfeydd cae a fferm, gan fod hyn yn fwyaf perthnasol i lywio ymyriadau ar lefel fferm. Roedd yr adborth hefyd yn dangos bod yn rhaid rhannu data mewn modd amserol, hygyrch ac ystyrlon i gefnogi gwaith rheoli pridd cynaliadwy'n effeithiol.

**Pwysleisiodd y ffermwyr fod cyfnewid gwybodaeth yn bwysig ar gyfer cefnogi rheolaeth gynaliadwy ar briddoedd. Mae'r ymgysylltiad â ffermwyr wedi llywio'r amcan hwn trwy amlygu mai'r ffordd orau o gefnogi cyfnewid gwybodaeth yw rhannu profiad ymarferol a gwybodaeth ddiduedd o ansawdd.**

## Amcan 2: Annog rhannu gwybodaeth am briddoedd

**Hyrwyddo cyfnewid gwybodaeth yn effeithiol rhwng ffermwyr, rheolwyr tir, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, cynghorwyr ac ymchwilwyr, er mwyn galluogi'r penderfyniadau gorau posibl ar gyfer priddoedd gwydn.**

Mae ffermwyr Cymru wedi rheoli'r rhan fwyaf o'r pridd yng Nghymru ers cenedlaethau ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r hyn sydd o dan eu traed. Mae ganddynt wybodaeth hanfodol i'w rhannu a gallant hefyd elwa ar wybodaeth a chyngor o ystod o ffynonellau.

Yn ôl ein hymgysylltiad â ffermwyr, y ffordd fwyaf effeithiol o gyfnewid gwybodaeth yw rhannu profiad ymarferol a gwybodaeth ddiduedd o ansawdd mewn ffyrdd hygyrch. Gall hyn alluogi pob parti i wneud penderfyniadau effeithiol i warchod a chynnal priddoedd amaethyddol, mewn polisi ac ymarfer. Bydd cyfnewid gwybodaeth yn effeithiol yn hanfodol i liniaru ac addasu i bwysau cynyddol mewn hinsawdd sy'n newid.

**Awgrymodd nifer o'r ffermwyr y gellid newid geiriad blaenorol yr amcan hwn sef 'Lleihau diraddiad pridd' i adlewyrchu'n well y ffaith bod pridd Cymru mewn cyflwr cyffredinol dda ar hyn o bryd ac i gyflwyno uchelgais mwy cadarnhaol ar gyfer y dyfodol.**

## Amcan 3: Gwarchod, cynnal a gwella priddoedd, swyddogaethau a gwasanaethau pridds


- **Gwarchod priddoedd a'u swyddogaethau rhag bygythiadau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg.**
- **Cynnal a gwella swyddogaethau a gwasanaethau pridd i sicrhau gwydnwch pridd yn y dyfodol.**

Nodwyd pum blaenoriaeth ar gyfer yr amcan hwn o'r adolygiad tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Am fod priddoedd a swyddogaethau pridd yn gymhleth ac yn rhyng-gysylltiedig, efallai bydd gorgyffwrdd neu gyfaddawdau rhwng blaenoriaethau, a ffyrdd eraill o warchod, cynnal a gwella priddoedd nad ydynt wedi'u hamlygu.

**Roedd y ffermwyr am gydnabod y gallai arferion rheoli wrthdaro â'r meysydd blaenoriaeth gan eu bod weithiau'n dod ar draws cyfaddawdau wrth wneud penderfyniadau rheoli.**

**Awgrymodd ambell ffermwr y dylid ymdrin yn fwy penodol â rheoli dŵr yn amcanion y datganiad. Mae dŵr y tu hwnt i gwmpas y datganiad sy'n canolbwyntio ar bridd, felly nid ydym wedi ymdrin â dŵr yn uniongyrchol fel blaenoriaeth. Fodd bynnag, rydym wedi amlygu yn y meysydd blaenoriaeth sut mae rheoli pridd yn dda yn delio ag ansawdd dŵr, llygredd dŵr a lliniaru perygl llifogydd.**

**Ffigur 3:**



Dengys y tabl isod y buddion i swyddogaethau pridd y gall pob un o’r blaenoriaethau a nodwyd eu cyflawni:

**Tabl 1:**

| | | Blaenoriaeth i warchod, cynnal a gwella priddoedd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cynnal a gwella deunydd organig pridd | Cydbwyso cylchredau maetholion | Gwarchod priddoedd rhag erydiad | Cynnal a gwella strwythur pridd | Gwarchod a meithrin bioamrywiaeth pridd |
| Swyddogaeth pridd sy’n elwa | Cynhyrchu bwyd a biomas | Llawer o fudd | Budd cymedrol neu leol | Budd cymedrol neu leol | Llawer o fudd | Budd cymedrol neu leol |
| | Rheoleiddio cylchredau amgylcheddol | Llawer o fudd | Llawer o fudd | Ychydig o fudd | Ychydig o fudd | Llawer o fudd |
| | Cynefinoedd a bioamrywiaeth | Llawer o fudd | Llawer o fudd | Budd cymedrol neu leol | Budd cymedrol neu leol | Llawer o fudd |
| | Rheoleiddio llif ac an-sawdd dŵr | Llawer o fudd | Llawer o fudd | Llawer o fudd | Llawer o fudd | Ychydig o fudd |
| | Lliniaru ac addasu i’r newid yn yr hinsawdd | Llawer o fudd | Llawer o fudd | Ychydig o fudd | Budd cymedrol neu leol | Budd cymedrol neu leol |
| | Diwylliannol a Hanesyddol | Ychydig o fudd | Ychydig o fudd | Budd cymedrol neu leol | Ychydig o fudd | Ychydig o fudd |

Llawer o fudd   Budd cymedrol neu leol   Ychydig o fudd

**Roedd y rhan fwyaf o ffermwyr yn cydnabod buddion swyddogaethol rheoli pridd yn dda, yn enwedig y buddion i gynhyrchu bwyd a biomas sy'n rhoi budd economaidd i ffermwyr. Ni chydnabuwyd hyn yn y drafft cyntaf. Yma rydym wedi amlygu sut mae'r blaenoriaethau a osodwyd ar gyfer rheoli pridd yn dda yn cefnogi swyddogaethau pridd.**

## Cynnal a gwella deunydd organig pridd

**Cynnal y storau presennol o ddeunydd organig pridd, a'u cynyddu lle bo hynny'n briodol, trwy reoli pridd yn effeithiol.**

Mae gan ddeunydd organig pridd nifer o fuddion i ffrwythlondeb pridd, bioamrywiaeth pridd, strwythur pridd, a gallu pridd i ddal dŵr a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae hefyd yn cynnwys cyfran fawr o garbon pridd (60%). Yng Nghymru, mae lefelau deunydd organig pridd yn nodweddiadol uchel oherwydd graddau helaeth o bridd organig bras (mawn a phridd organo-fwynol) a thir a reolir o dan laswelltiroedd dwysedd isel. Mae angen ystyried yn ofalus wrth gynnig newid rheolaeth amaethyddol a allai arwain at golli deunydd organig pridd. Gall cynyddu'r storfa o ddeunydd organig lle cafodd ei ddihysbyddu fod yn fuddiol, ar yr amod bod hyn yn cael ei reoli mewn ffordd sy'n lleihau risgiau cronni maetholion a llygredd. Gall cynnal a chynyddu deunydd organig pridd hefyd gynyddu gwydnwch priddoedd rhag effeithiau newid yn yr hinsawdd.

## Gwarchod priddoedd rhag erydu

**Gwarchod priddoedd rhag erydu drwy reolaeth briodol mewn ardaloedd sydd mewn perygl.**

Mae'r rhan fwyaf o briddoedd Cymru o dan laswelltir parhaol, sy'n fuddiol i atal erydiad, os cânt eu rheoli'n briodol. Fodd bynnag, gall prosesau erydu fod yn lleol ac yn ddwys, gan arwain at fannau problemus lle gellir colli pridd yn sylweddol. Mae ardaloedd ar lethrau a phriddoedd tywodlyd/silt neu organig yn fwy tebygol o gael eu herydu gan ddŵr neu wynt. Disgwylir i'r cynnydd a ragwelir yn amlder a difrifoldeb digwyddiadau tywydd eithafol o dan newid yn yr hinsawdd gynyddu risg erydiad pridd. Gall dewisiadau rheoli amaethyddol waethygu neu leihau perygl erydu, megis trwy gynyddu neu leihau arwynebedd pridd agored. Mae lleihau erydu yn cynnig manteision lluosog i strwythur pridd, cynhyrchiant amaethyddol, ansawdd aer a dŵr, bioamrywiaeth pridd a rheoleiddio hinsawdd.

**Pwysleisiodd y ffermwyr bwysigrwydd strwythur pridd da ar gyfer ymdreiddiad da, gallu dal dŵr ac awyru priddoedd ar gyfer cynhyrchiant. Rydym wedi newid y flaenoriaeth o 'lleihau cywasgu', i 'gwella strwythur pridd'. Mae'r amcan hwn bellach yn llai cyfyngedig, gan gwmpasu holl fanteision strwythur pridd da ac mae hefyd wedi'i fframio'n fwy cadarnhaol gan fynd i'r afael ag adborth i gynyddu'r defnydd o iaith gadarnhaol drwy'r datganiad.**

## Mynnal a gwella strwythur pridd

**Cynnal a gwella strwythur pridd, gan ganolbwyntio ar leihau cywasgu pridd trwy reolaeth briodol yn ystod amodau gwlyb risg uchel.**

Mae pridd amaethyddol mewn cyflwr strwythurol da yn caniatáu draenio dŵr, symudiad aer a thyfiant digyfyngiad gwreiddiau. Mae hyn yn cefnogi mwy o gynhyrchiant amaethyddol, manteisio mwy effeithlon ar wrtaith, lleihau llygredd dŵr a llifogydd, yn ogystal â chynyddu gwydnwch priddoedd rhag effeithiau newid yn yr hinsawdd (megis mwy o ddigwyddiadau tywydd eithafol).

Un bygythiad allweddol i strwythur pridd yw cywasgu pridd ac mae priddoedd gwlyb yn arbennig o agored i niwed. Mae risg uchel posibl o gywasgu ym mhriddoedd Cymru gan fod llawer ohonynt yn wlyb am fwyafrif y flwyddyn oherwydd athreiddedd araf a glawiad uchel, neu ddŵr daear uchel. Nododd ein hymgysylltiad fod cywasgu yn broblem allweddol i lawer o ffermwyr Cymru a bod angen rheolaeth amaethyddol ofalus yn ystod amodau gwlyb risg uchel. Er y gellir lleddfu cywasgu, gall hyn fod yn gostus, cymhleth a heriol, yn enwedig ar gyfer haenau islaw'r wyneb.

## Gwarchod a meithrin bioamrywiaeth pridd

**Gwarchod a meithrin bioamrywiaeth pridd trwy reolaeth briodol.**

Cyfeiria bioamrywiaeth pridd at nifer ac amrywiaeth yr organebau, fel mwydod a microbau, sy'n byw mewn pridd. Mae organebau pridd yn cyfrif am ryw chwarter o'r fioamrywiaeth fyd-eang ac yn cynnal natur amlswyddogaethol ecosystemau tir i ailgylchu maetholion, cynhyrchu bwyd, storio carbon a chynnal cynefinoedd. O ystyried mai organebau pridd yw'r grym y tu ôl i'r rhan fwyaf o brosesau pridd, credir bod dirywiad bioamrywiaeth pridd yn fygythiad sylweddol. Prin yw'r dystiolaeth ar y tueddiadau mewn bioamrywiaeth pridd yng Nghymru, ond gall newidiadau ddigwydd oherwydd rheoli amaethyddol, colli deunydd organig, tywydd eithafol a llygredd pridd. Yn gyffredinol, mae bygythiad colledion i fioamrywiaeth pridd a'i swyddogaethau cysylltiedig yn llai ar y cyfan mewn systemau amaethyddol dwysedd isel o'u cymharu â rhai dwysedd uchel. Mae newid yn yr hinsawdd yn debygol o newid digonedd ac amrywiaeth organebau pridd, a'r rhyngweithio rhyngddynt a chyda phlanhigion.

**Roedd y ffermwyr yn cydnabod bod ffrwythlondeb pridd yn flaenoriaeth i iechyd pridd na chafodd sylw yn nrafft cyntaf y datganiad. O ystyried ansefydlogrwydd prisiau gwrtaith, amlygwyd ganddynt y dylai cynnal ffrwythlondeb pridd a defnyddio maetholion yn fwy effeithlon gael eu cynnwys yn y datganiad. Trafodwyd yr ystyriaeth hon trwy gynnwys blaenoriaeth newydd ar gydbwyso maetholion pridd. Mae'r flaenoriaeth hon yn amlygu bod ffermwyr angen ffrwythlondeb pridd da ar gyfer cynhyrchiant ond mae hefyd yn mynd i'r afael â'r effeithiau negyddol a all godi o lwytho maetholion ar y pridd ei hun a'r amgylchedd ehangach.**

## Cydbwyso cylchredau maetholion pridd

**Cydbwyso ailgylchu maetholion gan bridd i sicrhau bod swyddogaethau a gwasanaethau pridd yn cael eu darparu'n effeithiol**

Mae cylchredau maetholion yn disgrifio'r broses o storio, defnyddio, symud ac ailgylchu maetholion fel nitrogen a ffosfforws yn yr amgylchedd. Yn ystod y prosesau hyn, gellir trawsnewid maetholion yn ffurfiau sydd ar gael i blanhigion, eu cadw yn y pridd, neu eu colli i aer neu ddŵr. Mae cylchredau maetholion cytbwys yn darparu digon o faetholion i gyflawni swyddogaethau pridd a chynnal ffrwythlondeb pridd wrth leihau colledion i'r amgylchedd. Mae hyn yn fuddiol o ran effeithlonrwydd amaethyddol, ansawdd maethol bwyd, lleihau llygredd dŵr ac aer ac effeithiau hinsawdd.

Prin yw'r dystiolaeth o Gymru ond dengys tystiolaeth o bob rhan o'r DU fod gan y mwyafrif o briddoedd amaethyddol ormodedd o nitrogen a ffosfforws. Y prif beth sy'n aflonyddu ar gylchredau maetholion ar briddoedd amaethyddol yw llwytho maetholion. Er bod mewnbynnau maetholion yn bwysig mewn systemau ffermio ar gyfer cynnal cynhyrchiant, gall croniad sy'n fwy nag anghenion y system achosi anghydbwysedd. Hefyd, gall newid rheolaeth amaethyddol, colli bioamrywiaeth pridd, erydiad, a newid yn yr hinsawdd aflonyddu ar gylchredau maetholion.



Amlygodd adborth gan ffermwyr fod angen i'r datganiad gael ei integreiddio â pholisïau presennol eraill ac egluro sut y byddai'r amcanion polisi yn cael eu cyflawni'n ymarferol. Mae'r tablau canlynol yn rhan o ddogfen Tirlun Polisi Priddoedd Amaethyddol fwy o faint i'w chyhoeddi ochr yn ochr â'r Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol (DPPA) sy'n mynd i'r afael â'r adborth hwn.

Dengys **Tabl 1** y fframwaith o bolisïau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â phriddoedd amaethyddol gan gynnwys deddfau, targedau a rhwymedigaethau trosfwaol sydd megis sbardun i ddatblygu polisïau newydd, polisïau amaethyddol a rheoliadau cysylltiedig â phridd yn ogystal â rhaglenni monitro pridd a ffynonellau gwybodaeth am briddoedd amaethyddol.

**Tabl 1**

| Fframwaith Polisi Pridd Amaethyddol yng Nghymru (Mai 2025) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sbardunau Polisi** | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | Polisi Adnoddau Naturiol 2017 | Targed Sero Net erbyn 2050 (Cymru) | Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal 2022 | | |
| **Polisi Amaethyddol** | Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 | Traws-gydymffurfio 2023 | Cynllun Glastir (yn dod i ben 31 Rhagfyr 2023) | Cynllun Cynefin Cymru (Cynllun dros dro rhwng diwedd Glastir a chyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn llawn) | Y Cynllun Ffer-mio Cynaliadwy (Dechrau 2026) | | |
| **Rheoliadau Cysylltiedig â Phridd** | Rheoliadau Slwtsh (Defnydd Amaethyddol) 1989 | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 | Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (AEA) (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017 | Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 | Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 | Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyri-adau Cenedlaethol (y DU) 2018 | Polisi Cynllunio Cymru (PPW) 2024, Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040 ac Asesiadau Amgylcheddol |
| **Rhaglenni Monitro Pridd, Gwybodaeth a Chyngor** | Rhaglen Monitro a Modelu yr Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP) | Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) | Cyswllt Ffermio | Y Cod Ymarfer Amaethyddol Da (COGAP) | | | |

Coch – heb ei gysylltu'n uniongyrchol â phriddoedd amaethyddol

Mae Tabl 2 yn dangos y polisïau sy'n gweithredu fel mecanweithiau cyflawni ar gyfer amcanion y Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol (DPPA). Lle mae amcan yn cael ei gefnogi gan fecanwaith cyflawni, fe'i cysgodwyd yn llwyd, ac os na, fe'i gadawyd yn wag. Nid yw pob un o'r polisïau a restrir yn y fframwaith uchod (Tabl 1) wedi'u cynnwys fel mecanweithiau cyflawni. Mae hyn oherwydd eu bod **a.)** yn gweithredu fel sbardunau i ddatblygu polisi, yn hytrach na mecanweithiau cyflawni penodol **b.)** heb eu cwblhau eto (fel yn achos y Cynllun Ffermio Cynaliadwy) neu **c.)** yn gwarchod priddoedd yn ehangach, heb fynd i'r afael ag amcanion penodol y DPPA.

**Tabl 2**

| Mecanweithiau cyflawni allweddol y Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol (Mai 2025) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mecanweithiau cyflawni | Amcan 1: Cynyddu gwybodaeth am briddoedd Cymru | Amcan 2: Annog rhannu gwybodaeth am briddoedd | Amcan 3 – Gwarchod, cynnal a gwella priddoedd | | | | |
| | | | Cynnal a gwella deunydd organig pridd | Gwarchod priddoedd rhag erydiad | Cynnal a gwella strwythur pridd | Gwarchod a meithrin bioamrywiaeth pridd | Cydbwyso cylchredau maetholion pridd |
| Rhaglen Monitro a Modelu yr Amgylchedd a Materion Gwledig (Monitro Pridd Cenedlaethol ERAMMP) | | | | | | | |
| Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) | | | | | | | |
| Trawsgydymffurfio 2023 | | | | | | | |
| Cynllun Cynefin Cymru (Cynllun dros dro rhwng diwedd Glastir a chyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn llawn) | | | | | | | |
| Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndir | | | | | | | |
| Cyswllt Ffermio | | | | | | | |

| Mecanweithiau cyflawni allweddol y Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol (Mai 2025) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mecanweithiau cyflawni | Amcan 1: Cynyddu gwybodaeth am briddoedd Cymru | Amcan 2: Annog rhannu gwybodaeth am briddoedd | Amcan 3 – Gwarchod, cynnal a gwella priddoedd | | | | |
| | | | Cynnal a gwella deunydd organig pridd | Gwarchod priddoedd rhag erydiad | Cynnal a gwella strwythur pridd | Gwarchod a meithrin bioamrywiaeth pridd | Cydbwyso cylchredau maetholion pridd |
| Rheoliadau Slwtsh (Defnydd Amaethyddol) 1989 | | | | | | | |
| Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 | | | | | | | |
| Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (AEA) (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017 | | | | | | | |
| Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 | | | | | | | |